

ECO'R WYDDFA

RHIF 322

MAI 2005

PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn

- Tîm y Flwyddyn – tud. 6
- Artistiaid Llechi – tud. 4
- Cyfarfod Teyrnged – tud. 3
- Ymweld ag Affrica – tud. 7

FE FYDD unig siop un o bentrefi mwyaf bro'r Eco yn cau ddiwedd Ebrill wrth i'r perchnogion feio llywodraeth Tony Blair am yrru eu cwsmeriaid olaf i'r archfarchnadoedd.

Waunfawr yw un o bentrefi mwyaf Arfon gyda dros 1,200 o drigolion. Wedi naw mlynedd o wasanaeth, tristwch i Brian a Rita Henderson yw gorfod datgan bod Siop y Pentref, Waunfawr, yn cau.

Wedi'r newidiadau yn y system talu pensiynau, o lyfr pensiwn i gardiau, nid oes cymaint yn dod i'r swyddfa Bost ac oherwydd hynny aeth busnes y siop i lawr, yn ôl Brian. Bydd y swyddfa Bost yn parhau i wasanaethu trigolion Waunfawr yn ddyddiol rhwng 9.00 a 13.00 ac o 9.00 hyd 12.00 ar ddydd Sadwrn, ar gyfer talu biliau, cael talebau trydan a ffôn a chyfleusterau tynnu arian o'ch cyfrif, ond mae costau cynyddol wedi dod i'r amlwg i'r busnes yn ystod y flwyddyn, na ellir eu diwallu gyda gwerthiant papur newydd, torth o fara a pheint o lefrith.

'Nid oes gobaith parhau i weithio dros 80 awr am lai na £2 yr awr,' meddai Brian

Dim Siop y Pentref



Henderson. 'Bechod mawr yw colli siop mewn pentref ond ers i'r pensiynwyr dderbyn eu taliadau yn syth i'w cyfrif banc, daeth hi'n amlwg nad oedd dyfodol i'r siop.'

Mae Rita Henderson, y bostfeistres, a'r Swyddfa Bost eu hunain yn awyddus iawn i

gadw'r swyddfa yn agored yn Y Waun, ond mae Rita yn proffwydo mai tua tri cwsmer fydd hi'n eu gweld yn ddyddiol.

Bydd Brian yn ailgychwyn gwerthu bwydydd anifeiliaid ac adar yn y siop o ganol Mai ond mae'r ddau yn diolch i bob un sydd wedi bod yn gwsmer

rheolaidd ac wedi eu cefnogi dros y naw mlynedd.

Yn ôl yn 1965 roedd naw siop ym mhentref Waunfawr. Gyda 'siop y pentref' yn cau mewn llawer bro, a fydd hyn yn hoelan arall yn nyfodol ein diwylliant a'r iaith Gymraeg yng nhefn gwlad Cymru?

Eryl yn Ennill Gwobr

Llongyfarchiadau mawr i Eryl Roberts o Nant Peris ar ei llwyddiant diweddar ym Mhrifysgol Caerlyr. Mae Eryl, sydd yn gweithio i Brifysgol Caerlyr ac yn astudio at ei PhD mewn 'Schizophrenia and Eye Movements', wedi ennill gwobr arbennig am ei gwaith ymchwil arloesol yn edrych ar y cysylltiad sy'n bodoli rhwng y cyflwr sgitsoffrenia a symudiadau'r llygaid.

Mae Eryl, sy'n 29 oed, wedi bod yn astudio ym Mhrifysgol Caerlyr ers 10 mlynedd bellach. Ar hyn o bryd mae hi'n



gweithio fel ymchwilydd clinigol i'r Adran Opthalmoleg yn y brifysgol, ac yn astudio at ei doethuriaeth ar hyn o bryd.

Ond pam y dewisodd hi'r testun yma?

'Dwi wedi bod â diddordeb

mawr mewn gwyddoniaeth ffforensig, yn enwedig ffforensig seiciatrïg, seicoleg a phroblemau meddyliol erioed: pam a sut mae'r problemau yma yn digwydd. Er mai efo llygaid rydw i'n gweithio'n benna', dwi hefyd yn cael cyfle i astudio sgitsoffrenia a cheisio chwilio am, neu ddyfeisio, prawf fyddai'n gallu dweud a ydi'r cyflwr yn bresennol mewn unigolyn – dim ond drwy astudio'r llygaid.'

Ei gobaith ydi creu prawf a ellir ei ddefnyddio gyda phlant fel y gellir dechrau eu trin yn gynnar – cyn i'r cyflwr ddatblygu'n llawn – ac felly lleihau rhai o'r sgil effeithiau.

Mac cnill y wobr yn hwb mawr iddi:

'Roeddwn i wrth fy modd pan ges i wybod fy mod wedi

ennill y wobr,' meddai Eryl, 'Dwi wedi mwynhau'r gwaith ac wedi bod yn lwcus iawn yn astudio dan arweiniad yr Athro Irene Gottlob – un o arbenigwyr cyflyrau llygaid y byd.'

Breuddwyd oes Eryl – wedi iddi orffen ei doethuriaeth – yw cael gwaith fel gwyddonydd ffforensig neu 'soco' (scene of crime officer) – swyddog sy'n gweithio ar leoliad pan fo troseddau yn digwydd. Ond cyn hynny, fe fydd rhaid iddi bacio ei phethau a hedfan i Fflorida, America, i gyfrannu mewn cynhadledd rhwngwladol ar 'Ymchwil mewn Golwg ac Opthalmoleg', lle bydd hi'n cyflwyno'i gwaith o flaen degau o ymchwilwyr eraill. Meddai Eryl:

'Mae'n gyfle gwych i gyfarfod pobl craill sy'n gweithio yn yr un maes a fi – ac wrth gwrs, does dim llawer o leoliadau cystal â Fflorida i weithio ynddyn nhw!'

ECO'R WYDDFA

RHIF 322
MAI 2005

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT

7B STRYD PLAS

CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631

eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631

Bryn Jones (01286) 674405

Llinos Jones (01286) 871820

Richard Thomas (01286) 871954

Sion Williams (01286) 871858

Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prj.wales.com

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalit,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, 16 MAI

Os gwelwch yn dda

Paw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 26 MAI

Llythyrau

Clwb Rygbi
Y Morfa
Caernarfon

Annwyl Olygydd,

Apel am Luniau

Ys gwn i a ydi rhai o'ch
darllenwyr yn ddigon hen i gofio
Eisteddfod Caernarfon 1979?

Ydyn nhw'n cofio Geraint
Jarman yn canu yn Cae Saeson?
Ail Symudiad yng nghlwb
Tanybont? A llawr y Clwb
Rygbi'n sigo dan bwysau pawb
yn mwynhau?

Wel mac Clwb Rygbi
Caernarfon yn chwilio am luniau
o'r cyfnod er mwyn eu dangos yn
ystod Eisteddfod Eryri eleni,
pan fydd nifer o gigs yn cael eu
cynnal yn y Clwb unwaith eto,
ond mewn adeilad newydd
erbyn hyn!

Mae 'na wythnos lawn o
weithgareddau wedi eu trefnu yn
y Clwb Rygbi yn ystod wythnos
yr eisteddfod, gan gynnwys
Meinir Gwilym, Elin Fflur,
Frizbee, Comediwyr a mwy.

Byddai'n braf dangos lluniau
o'r tro diwethaf yr oedd yr
Eisteddfod yn y cylch. Felly os
oes gan unrhyw un o'ch
darllenwyr lun o'r cyfnod, ac yn
arbennig llun o'r clwb rygbi dan
ei sang, cysylltwch â Clwb Rygbi
Caernarfon, Y Morfa,
Caernarfon, LL55 2YF.

A cofiwch bydd tocyn am
ddim i'r noson o'ch dewis chi os
'da ni'n defnyddio'ch lluniau yn
yr arddangosfa!

Llawer o ddiolch. Welwn ni
chi yng Nghlwb Rygbi
Caernarfon wythnos yr
eisteddfod!

Yn gywir,
GWYN WILLIAMS

Llwyn y Gwdihw
23 Heol Croes Faen
Nottais
Porthcawl CF36 3SW

Annwyl Olygydd,

Diolch am gael copïau o'r *Eco*
drwy'r flwyddyn. Caf fwynhad
mawr o'u darllen.

Y mis yma, yn 'Siambar
Selwyn', roedd yna atgofion i mi
o Steddfod 1935 yn yr hen
bafiliwn. Fel un o hogia
Brynrefail, cefais y ffrainc o fynd
yno i werthu rhaglenni. Codi
pecyn o dri ar ddeg, swllt y copi,
a chael swllt yn ôl. Wnes i ddim
ffortiw ond fe gefais bleser a
phrofiad gwych. Gweld
offerynnau na welais erioed o'r
blaen, clywed y canu ac adrodd
gorau posibl, gweld a siarad â
Hannen Swaffer, gohebydd y
Daily Herald, a gwrando ar
Lloyd George ar y dydd Iau.

Cwt sinc yn wir oedd yr hen
bafiliwn ond fe oedd werth ei
gael. Y pŵn hwnnw,
ohcrwydd nifer o dorf, dringais
ar rhyw ddistiau yn agos i'r to i

weld a chlywed y gŵr enwog.
Roedd hi'n bawn poeth a gwres
yn codi o'r dorf enfawr ac fe fu'n
agos iawn i mi gael fy nghrasu.

Nos Sadwrn, gwrando ar
Heddle Nash a Ross Richards. Y
baswr yn cael dau encôr hefo
solo *Figaro*, a'r gynulleidfa yn
canu'r 'Flower Song' o *Carmen*.
Encôr ar ôl encôr!

Cyngerdd gwych, ond fe aeth
yn dipyn o lanast ar 'Hen Wlad
fy Nhadau'. Roedd arweinydd y
côr wedi gwneud ei drefniant ei
hun ond roedd y dorf yn canu'r
trefniant gwreiddiol. Fe fu bron i
noson fythgofiadwy fynd â'i
phen i'r wal.

Yn gywir iawn
GORONWY OWEN

Annwyl Ddarllenwyr

Cofeb y Chwarelwyr

Carem atgoffa darllenwyr yr *Eco*
y bydd dydd Sadwrn, 7 Mai, yn
ddiwrnod hynod o bwysig a
phrysur yn Ninorwig. Dyna
ddiwrnod dadorchuddio'r Gofeb
i'r Chwarelwyr yn yr Allt Ddu,
am 2.30 o'r gloch.

Bu aelodau Clwb Orwig yn
brysur yn paratoi ar gyfer yr
achlysur arbennig hwn. Eisoes fo
osodwyd y garreg goffa yn ei lle a
bydd englyn o waith Mr Norman
Closs Parry yn cael ei dorri arni,
ynghyd â chydabyddiaeth o ran
aelodau Clwb Orwig yn y
paratodau a gwerthfawrogiad o
haelioni teuluoedd y cyn-
chwarelwyr.

Mae'r ffrainc o
ddadorchuddio'r Gofeb yn
mynd i ddau o gyn-chwarelwyr,
sydd ymysg yr hynaf yn yr ardal,
sef Mr Andrew Griffith,
Dinorwig a Mr John Ellis
Morris, Deiniolen.

Cynhelir gwasanaeth byr wrth
y Gofeb, gyda Seindorf Arian
Deiniolen yn cyfeilio a Mr Evan
Bryn Roberts yn unawdydd.

Bydd pedwar o fechgyn, yn
wreiddiol o Ddinorwig, a
godwyd i'r weinidogaeth, sef y
Parchedigion Tudur Rowlands,
Idris Thomas, William John
Lewis ac Alan Wyn Roberts yn

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Yn eisiau

Clerc i'r Cyngor

Am ragor o wybodaeth a sgwrs
anffurfiol cysylltwch â'r

Cyng A. Thomas ar

(01286) 650757

DIGWYDDIADUR MAI

1-2: Penwythnos **CELLOSCOP**

1: Cyngerdd Cyhoeddus yn Galeri Caernarfon gan y Pumawd Cello sy'n cynnwys aelodau
o Gerddorfa Hallé 7.30 y.h.

2: Gweithdai Cello ar gyfer myfyrwyr o bob oed a chyrhaeddiad. Manylion o'r Ganolfan
(01286 685230) e-bost: elinor@cwmm@fiscal.co.uk neu cwmm@lineout.net

21: Cyngerdd Dathlu 10 Mlynedd y cwmni gan diwtoriaid a myfyrwyr Canolfan Gerdd
William Mathias gan gynnwys Iwan Llewelyn Jones (Pianydd); Elinor Bennett
(Telynors) a Mary Lloyd Davies (Soprano) 7.30 y.h. Tocynnau £8. Plant £4.

22: Dosbarth Meistr Piano i Athrawon yn Stiwdio 2 Galeri Caernarfon am
10.00 o'r gloch. Dosbarth i athrawon piano gyda Iwan Llewelyn Jones.
Tocynnau o'r Ganolfan Gerdd.

Rhif fôn: (01286) 685230
e-bost: cwmm@lineout.net

Canolfan Gerdd
William Mathias

gwasanaethu, ac mae'r olaf wedi
cyfansoddi emyn yn arbennig ar
gyfer yr achlysur.

Bydd rhagor o ddatllu i
ddilyn yn y Ganolfan, lle
darperir lluniaeth ysgafn,
arddangosfa o luniau o'r chwarel
a chyfarchion gan yr Aelod
Seneddol, Aelod y Cynulliad,
Swyddog o Age Concern,
Cynghorwyr ac eraill.

Edrychwn ymlaen at
groesawu tyrfa fawr, a phob un
wedi gofalu dod â'r haul i'w
ganlyn gobeithio!

AELODAU PWYLLGOR
COFEB Y CHWARELWYR

RHODDION

£10: Mr a Mrs Maldwyn
Hughes, 2 Bryn Gro, Cwm-y-
glo.

£6: Mrs Beryl Griffith, Maes
Gwylfa, Deiniolen; Gwynn
Davies, Waunfawr; Dr R.
Fraser Williams, Sale,
Cheshire.

£9: Mrs Gracie Jones,
Rhydaman.

£5: Mr Idris Parry, Rhes y
Faenol, Deiniolen; Ruby
Harrison, Bakhita, Bethel;
Mrs Jane Thorman Jones, 14
Tai Caradog, Deiniolen; Mr
Kevin Jones, Gwelfynydd,
Deiniolen; Mrs Sylvia Jones,
Tai Marian, Deiniolen; Mrs
Beti Lloyd Roberts, 6 Bro
Deiniol, Deiniolen; Huw a
Beti Pritchard, Rhosgadfan.

£4: Catherine Jones, Bryn
Gwenallt, Waunfawr; Mrs
Rosealie Lamburn,
Mogerhanger

£3: Haf Thomas, Buarthau,
Llanrug.

£1: Goronwy Owen, Nottais,
Porthcawl.

Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn **870605**

- Basgedi Planhigion,
Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod
yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau
Siarad/Talking Pages
0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau
a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

GIGS 'STEDDFOD

2005

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Oeddech chi'n un o'r rhai lwcus a lwyddodd i gael tocyn i un o gigs diweddar Gruff Rhys ac wedi'ch plesio gymaint nes eich bod ar bigau i'w weld eto? Neu oeddech chi'n hollol siomedig eich bod wedi methu cael tocyn i un o'r gigs i hyrwyddo'r albwm *Yr Atal Genedlaeth*? Wel, fe gewch un cyfle arall i weld prif ganwr y Super Furry Animals yn perfformio ar ben ei hun gan y gallwn gyhoeddi y bydd yn perfformio mewn gig arbennig iawn yn Eisteddfod Genedlaethol 2005!

Fel arfer, mewn cydweithrediad â phobl lleol, bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cynnal gigs yn ystod wythnos yr Eisteddfod eleni, a hynny yng nghanolfannau gorau yr ardal. Bydd dwy brif ganolfan i'r gigs yr Eisteddfod eleni, sef 'Amser' ym Mangor a 'Cofi Roc' yng Nghaernarfon. Unwaith eto bydd y Gymdeithas yn cynnig arlwy o fandiau ac artistiaid gorau Cymru gyda rhywbeth ar gyfer pob blas cerddorol.

Ymysg y cerddorion fydd yn ymddangos i Gymdeithas yr Iaith, bydd Gruff Rhys yn gwneud perfformiad arbennig iawn. Dywedodd Swyddog Adloniant y Gymdeithas, Owain Schiavone:

'Rydym yn falch iawn o allu cyhoeddi ein bod yn mynd i fod yn defnyddio dwy ganolfan wych yn ardal yr Eisteddfod unwaith eto eleni - mae 'Amser' a 'Cofi Roc' yn ddwy o'r canolfannau gigs gorau yng Ngogledd Cymru. Ar ben hyn rydym wrth ein boddau fod Gruff Rhys yn mynd i fod yn perfformio i ni yn ystod yr wythnos, roedd y gig a wnaeth i'r Gymdeithas yn Solfach adeg Eisteddfod Tyddewi yn ddigwyddiad gwych a dwi'n gwybod y bydd y gig eleni yn arbennig iawn hefyd... allwn ni ddim disgwyl!'

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â gigs y Gymdeithas yn yr Eisteddfod neu unrhyw beth arall, ymwelwch â

www.cymdeithas.com neu ffoniwch Swyddfa'r Gymdeithas: 01970 624 501.

Gallwch hefyd gysylltu â Owain Schiavone (Swyddog Adloniant y Gymdeithas) ar owain@cymdeithas.com neu 07813 050 145.

Glanhau eich Cartref?



Gwasanaeth ym mro'r Eco
Safon uchel am bris rhesymol

Cysylltwch â:

Janet ar 07766 880650

neu

Sharon ar 07748 626607

Wavell Roberts

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ

(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR

(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD

(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad

yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

CYFARFOD TEYRNED

John Roberts Williams

Cynhelir cyfarfod o deyrned i'r diweddar John Roberts Williams yng Nghapel Pencaenewydd ar brynhawn Sadwrn, 7 Mai am 2 o'r gloch.

Llywyddir gan Dr Meredydd Evans a cheir annerchiadau byr gan Yr Athro Aled Gruffydd Jones, Gwen Ffrangcon a Geraint Stanley Jones ar gyfraniad John i fyd newyddiadurach, ffilmio a darlledu. Yn ogystal ceir gair byr am y cyfnod y bu'n gweithio ar *Y Cymro* gyda John gan Dyfed Evans, ac i gloi cyflwynir darlenniadau o nifer o wahanol weithiau John gan Maureen Rhys a John Ogwen.

Estynnir croeso cynnes iawn i gyfeillion John o fro'r Eco i ymuno yn y cyfarfod ym Mhencaenewydd, brynhawn Sadwrn, 7 Mai am 2 o'r gloch.

RYGARUG

'Nodi'

Dros wyliau'r Pasg lawnsiodd S4C fersiwn newydd sbon o'r hen ffefryn - 'Nodi'. Os gwelsoch y rhaglen fe glywsoch Gôr Rygarug yn canu'r arwyddgan. Dewiswyd y côr i fynd i Stiwdio Sain, Llandwrog, i recordio'r gân mewn stiwdio gerdd broffesiynol. Roedd yn brofiad gwych i'r criw ifanc a deithiodd i Landwrog ar y bws ar noson stormus iawn ym mis Chwefror.

Prosiect Fideo Rygarug

Mae penwythnosau aelodau Rygarug wedi bod yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf. Yn ôl ym mis Medi lawnsiwyd cynllun newydd sbon ar gyfer y sesiynau Aml-Gyfrwng, sef y Prosiect Fideo.

Allan o'r sesiynau crewyd pedair sgript wriddiol: 'Clwb Cysgu', 'Piano', 'Dim Mwg heb Dân' a 'Sam'. Yn ogystal â chreu'r cymeriadau a llunio'r sgript, yr aelodau sydd hefyd yn actio'r amrywiol rannau yn y ffilmiau. Mae arbenigwyr o fyd ffilm a theledu wedi rhoi eu hamser a'u harbenigedd yn hollol wirfoddol i ddod â gwaith yr aelodau i'r sgrin fach.

Fe fydd noson arbennig yn cael ei threfnu i ddangos y pedair ffilm yn y Galeri,

Caernarfon, yn ystod mis Mehefin.

Eglwys St Mihangel

Bydd cyfle i weld Côr Rygarug yn perfformio yn Ysgol Brynrefail ar 11 Mai, gyda Chôr Eryri, Clychau'r Grug a Seindorf Arian Llanrug mewn cyngerdd i godi arian tuag at Eglwys St Mihangel.

Copa Caban

Ym mis Awst, bydd Rygarug yn cyflwyno'r sioe gerdd 'Copa Caban' unwaith eto, gan anelu'r tro hwn at gynulleidfa changach, o Gymru ben baladr, a fydd yn ymweld â'r ardal ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau. Mae'r sioe yn cyflwyno nifer o gymeriadau hanesyddol a chwedlonol y cylch ac yn cyfeirio at ambell hanesyn a chwedl. Cyflwynir y cyfan gyda chân a dawns a llond trol o gymeriadau lliwgar a difyr.

Nod Rygarug yw rhoi cyfle i ieuencid yr ardal gymryd rhan yn y celfyddydau perfformio o fewn eu milltir sgwâr, ac am bris rhesymol.

Am fwy o wybodaeth am weithgareddau Rygarug ewch i'r wefan: www.Rygarug.org neu ffoniwch (01286) 675766.



Yr aelodau yn gweithio ar olygfa o 'Clwb Cysgu' dan arweiniad Dyfan Roberts, Angela Roberts, Irfon Jones a Dafydd Roberts.

Hoffai'r aelodau ddiolch yn fawr iawn i'r tîm ac i Robin Williams, Len Brookes ac Efa Dyfan am eu gwaith caled yn ystod y ffilmio.



Ar Ben Arall y Lein

Tydi hi'n hir yn cynhesu? Un waith yn unig dwi wedi bod ar yr afon a hynny ar y diwrnod cyntaf, sef 3 Mawrth, a doedd hwnnw mo'r diwrnod cynhesaf chwaith! Ond mae un peth yn sicr mae digon o ddŵr ar gael, gyda'r Seiont heddiw tros ei glannau, yn ogystal â chnwd trwchus o eira i lawr hyd at gyrion Deiniolen. Mae'n dda felly fod digon i'w wneud i gadw rhywun mewn cysylltiad â byd y pysg, o leiaf.

Pethau fel dal ati i geisio dod â diwedd i'r gwaith o adnewyddu Melin y Cim, Pontllyfni, a'r mis yma mae'n bosib cynnwys llun o sut mae pethau'n symud ymlaen.

Mae'r gwaith o brynu'r felin, gwneud a chael hawl cynllunio, ceisio am grantiau a symud at ddechrau'r gwaith wedi bod yn daith o bron i ddeng mlynedd, ac yn barod, mae fel petai amgylchiadau yn cynllwynio yn erbyn gorffen y gwaith, oedd i fod wedi dod i derfyn ddiwedd Awst

nenfwd y tŷ acw, yn lle mynd i 'ngwely.

Un o gynlluniau eraill y Gymdeithas yw adeiladu canolfan ar ein tir ger yr afon yn Crawia. Mae hawl wedi ei ganiatáu, a mawr oedd y gobaith o allu cydweithio gyda Chyngor Chwaraeon Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd ac eraill i gael canolfan a fuasai'n galluogi ieuencid lleol i gael eu hyfforddi yn meysydd pysgota, canŵio a gweithgareddau awyr agored eraill. Dyma faes lle mae gwir angen Cymru Gymraeg i ddod ymlaen.

Roedd teimlad y clwb fod pethau'n symud yn araf dros ben, a bod rhwystredigaethau annisgwyl yn cael eu rhoi o'n blaenau. Hefyd roedd yn amhosib cael gwybodaeth be oedd yn mynd ymlaen. Mae'n wir dweud bod amheuan mawr fod rhai o'n sefydliadau cyhoeddus gyda *agendas* eu hunain, a'r rhain weithiau yn rhedeg yn groes i ddymuniadau'r cyhoedd. Sut i gael

tystiolaeth o hyn yw'r gamp wedi bod ar hyd yr amser, ond heddiw mae pethau yn wahanol drwy'r ddeddf sydd newydd ddod i rym, sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Trwy wneud ceisiadau o dan y ddeddfwriaeth yma cawsom agoriad llygaid a siomedigaeth fod y Cyngor Chwaraeon, sydd wedi bod ynghlwm â'n cynllun, wedi anfon sylwadau i'r Cynulliad Cenedlaethol i'r perwyl nad oedd angen canolfan arall yn y fro, na hyfforddwyr ychwanegol chwaith! Sôn am gorff cyhoeddus ddim eisiau cystadleuaeth! Cywilyddus! Ond, wrth gwrs, fel popeth arall, fe awn ymlaen gyda'r cynllun heb eu cymorth. Gwynt teg ar eu hôl!

Digon am bolitics 'sgota.

Er bod y tywydd yn oer, mae stocio cyntaf Llyn Dywarchen wedi cymryd lle yn nechrau Ebrill. Mae rhai wedi bod yno ynghanol yr eria, a bras yw'r helfa yn ôl pob golwg. Daliwch ati, mae pob 'sgodyn wedi ei haeddu yn y tywydd yma.

Wrth gloi, mae'n anodd peidio clywed y proffwydi digalondid yn pregethu fod y byd ar ben. 'Mae'r wenoliaid wedi eu difa i gyd', yw'r diweddaraf, oherwydd rhyw chwynladdwr sydd wedi ei ddefnyddio i ladd locustiad ac sydd, yn ei dro, wedi difa pob pryfetach yng ngogledd Affrica. Mae'n rhaid felly fod y gwenoliaid sy'n ymgartrefu yn ystod y gwanwyn a'r haf ar lannau ein hafonydd ni yn dilyn rhyw lwybr arall ar eu taith yma. Heno ddiwethaf roedd sioe arbennig ar lannau'r Seiont gyda dwsinau ohonynt yn llithro'n ddiymdroch drwy'r canghennau, fadfeddi o wyneb y dŵr.

Mis nesaf - wel, 'sgota, gobcithio!

HUW PRICE HUGHES



Melin y Cim.



Cartref i'r Ystlumod.

'04. Y prif reswm am y troi a throsi yw presenoldeb yr ystlum bedol leiaf, oedd yn defnyddio'r hen adeilad fel clwydfan fagu yn ystod misoedd yr haf. Gan fod y creaduriad yma mor brin mae deddfau llym yn eu gwarchod, felly roedd yn angenrheidiol cael trwydded i weithio. Rhaid hefyd oedd dylunio llety newydd i'w cartrefu, ac mae'r llety sy'n cael ei adeiladu yn well na llawer i gartref teuluol yn y fro.

Rwyf nawr, ar ôl yr holl waith yma, yn dipyn o arbenigwr fel goidwad llety ystlumod. Rhaid i mi wyllo neu mi fyddaf yn dechrau clwydo ar fy mhen i lawr bob nos o

Perygl! Artistiaid dan ddylanwad llechi

Mae tomen o bosibiliadau yn wynebu dau artist preswyl o Wynedd. Hen straeon, chwedlau, llên gwerin, offer a pheiriannau - dyna'r fath o beth sydd o ddiddordeb i Maia Conran a Dyfrig Peris a benodwyd yn ddiweddar i arwain y prosiect 'llechi'.

Dros y cyfnod sy'n arwain at Eisteddfod Genedlaethol Eryri ym mis Awst, bydd y ddau yn gweithio yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, ar gynllun sydd wedi'i ysbrydoli gan effaith y garreg las ar fywyd y fro. Gan weithio yn y gymuned, bydd yr artistiaid yn ymchwilio i effaith ddiwylliannol, cymdeithasol ac artistig llechi.

Mae'r prosiect yn dipyn o fargen i Dyfrig Peris - dyma gomisiwn sylweddol cyntaf yr artist o Ddyffryn Nantlle ers iddo raddio mewn celf ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw ddwy flynedd yn ôl.

'Mae'n gyfle da i wneud job go iawn a rwy'n gobeithio gweld prosiectau eraill yn dod allan ohoni,' meddai. Fel man cychwyn, mae ganddo flys ar astudio'r traddodiad o gerfio llechi a chwilota am hen offer chwarel. 'Dwi ddim yn gwybod be' yn union dwi am ei wneud eto ond dwi isio clymu petha' fel'na at ei gilydd.' Yn ôl yr artist, mae'r posibiliadau'n ddibendraw.

Golwg rhywun o'r tu allan sydd gan Maia Conran ar ddiwylliant y llechi. A hithau wedi graddio mewn celf ym

Mhrifysgol Sheffield Hallam y llynedd, mae'r preswyliad wedi ei denu yn ôl i'w chynefin ym Mangor.

'Mae'n ideal,' meddai am y prosiect. 'Dwi wedi symud yn ôl i fyw yma yn arbennig ac yn gobeithio aros.'

Ei bwriad i ddechrau yw ffilmio cyfweiliadau - a'r gamp yn ôl yr artist yw canfod pobol o wahanol ardaloedd i'w holi. 'Dwi'n gobeithio gwneud tafluniad fideo ynglŷn â pherthynas pobol â'r chwarel - dyna'r ffordd dwi eisio mynd ar y foment. Mae 'na lot o gymeriadau o gwmpas. Mae pawb yn adnabod rhywun ond dydw i ddim isio defnyddio un chwarel un unig - dwi isio iddo fod yn fwy eang.'

Yn dilyn cyfnod o ymchwilio, bellach mae Maia Conran a Dyfrig Peris wedi sefydlu stiwdio yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Ac yn ogystal â dangos y gwaith celf gorffenedig, bydd yr artistiaid yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn y Faenol fis Awst nesaf.

Trefnir cynllun llechi gan Cywaith Cymru mewn partneriaeth ag Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Am wybodaeth bellach: Stephen West, Cywaith Cymru (01938) 820147; John Kendall, Amgueddfa Lechi Cymru (01286) 873707 a Robyn Tomos, Eisteddfod Genedlaethol Cymru (02920) 763777




GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



BLNYDDOEDD O BROFIAD VN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

LLONGYFARCHIADAU mawr i Alan a Teleri Pritchard, Groeslon, ar enedigaeth eu mab, Tomos Mabon, ar 15 Mawrth yn Ysbyty Gwynedd. Longyfarchiadau hefyd i Melvyn a Prydwen Pritchard, Llys Awel, ar fod yn nain a taid unwaith eto!

LLONGYFARCHIADAU i Gwenno Pritchard, Tŷ Isa ar basio ei Gradd 4 Theori Piano, ac i Manon Pritchard, Fron, ar basio ei Gradd 1 Theori Piano gydag anrhydedd. Daliwch ati, genod!

PÊL-DROED. Wel mae'r tymor pêl-droed bron iawn ar ben a'r hogia dan 9 oed wedi cael tymor eithaf da. Dymuna lola ddiolch yn fawr iawn i Nigel Orritt, David Lee, yr holl famau a'r tadau am gludo'r hogia yn ôl a blaen a diolch yn arbennig i'r plant am eu gwaith caled!

CYFEILLION EGLWYS SANT PERIS. Mae Clwb Cant yr eglwys wedi ei sefydlu yn ddiweddar er mwyn ceisio codi'r arian sydd ei angen ar gyfer atgyweirio'r eglwys. £12 yw'r gost am y flwyddyn gyfan (pant y mis). Cysylltwch â Mrs Margaret Ellis (871339) neu Anne Cumberton (870284) os hoffwch ymuno â'r clwb.

MYNENT SANT PERIS, NANT PERIS. Bwriedir, fel y llynedd, roi diwrnod i dorri'r gwair a thwtio'r fynwent o gylch eglwys Sant Peris. Gwahoddir gwirfoddolwyr i ymgymryd â'r gwaith, i ddechrau am 9.30 y bore ar fore Sadwrn, 4 Mehefin. Bu'r ymgyrch yma yn llwyddiannus dros ben ac yn llawn hwyl y flwyddyn ddiwethaf. Beth am ymuno â ni eleni? Cysylltwch â'r Parch Deiniol Morgan ar 873678.

FFIDLAU'N FFLAMIO 'NÔL I NANTPERIS. Sylwch pob ffidilwr a phawb sy'n hoff o gerddoriaeth y ffidil! Nantperis ydy'r lle i fod ar Fehefin 25, 2005. Yn sgil y

llwyddiant ysgubol y llynedd, mae Gŵyl Ffidil yr Wyddfa yn ôl yn y Nant gyda rhywbeth at ddant pawb sy'n hoffi'r ffidil.

Cyflwyno'r cyngerdd yn eglwys hynafol Sant Peris Joe Scurfield, aelod gwreiddiol yr 'Old Rope String Band', arch ffidilwr a meistr ar ddulliau Bluegrass, Old-time, Gwyddelig a Swedaidd. Mae Joe hefyd yn gloesiwr rhyfeddol, yn gonsuriwr ac yn jygliwr. Am gyfuniad, am berfformiwr!

Hefyd SILD (y gair Estoniaidd am bont), deuawd Cymreig-Estonaidd unigryw sy'n cyfuno ffidil, llais a thelyn fwaidd Sille Ilves, a gitâr a bwswei Martin Leamon. O'r briodas unigryw yma daw cynnyrch llonydd, tawel, hudolus a chryf yn seiliedig ar ganeuon ac alawon traddodiadol Estonia a Chymru. Cafodd eu CD gyntaf, 'Priodi' groeso cynnes gan y wasg werin - 'cerddoriaeth hyfryd, hyfryd', yn ôl Verity Sharp, Radio 3.

Yn ogystal â hyn cewch set byr gan 'Y Didrefnwyr', cyfrinach dywyllaf byd gwerin gogledd Cymru (y ffidilwyr lleol, Cass Meurig ac Idris Morris Jones o Pigyn Clust, a'r gitarydd, Nial Cain), a Chlwb Ffidil yr Wyddfa. Gwledd llawn danteithion ar gyfer connoisseurs y ffidil!

Yn ystod y dydd bydd gweithdai ar gyfer dechreuwyd a chwaraewyr ffidil mwy profiadol, a gweithdy ar alawon Estonia ar gyfer unrhyw offeryn. Mwynhewch sesiwn werin trwy'r dydd yn awyrgylch groesawgar y Vaynol Arms a dewch â'ch ffidil sâl i weld y Meddyg Ffidilau, Nial Cain!

Caiff rheini ymlacio hefyd wrth fod yna drip dringo i blant, sesiynau adrodd chwedlau gwerin gyda Catherine Aran a gweithdai dawns y gloesen.

Peidiwch â cholli'r cyfle! Gweler y rhaglen isod. Am fwy o wybodaeth a thocynnau cysylltwch â (01286) 871042 neu nialcain@tinyworld.co.uk.

Dydd Gwener, 24 Mehefin:

8.00: Noson Lawen yn y Vaynol Arms

Dydd Sadwrn, 25 Mehefin:

10.00: Trip dringo i blant yn y Vaynol Arms.

10.30: Gweithdy Ffidil i rai profiadol gyda Joe Scurfield yn Eglwys Sant Peris.

10.30: Gweithdy ffidil i ddechreuwyd gyda Idris Morris Jones yn y Vaynol Arms.

10.30: Cynghanedd ar y Ffidil yn Eglwys Sant Peris.

1.00: Gweithdy Crwth i ddechreuwyd gyda Cass Meurig a Silla Ilves. yn y Vaynol Arms.

1.00: Ffidil yn sâl? Cysylltwch â'r meddyg ffidilau, Doctor Nial Cain, yn y Vaynol Arms.

1.30: Chwedlau gwerin gyda Catherine Aran yn y Vaynol Arms.

2.00: Gweithdy alawon Estonaidd gyda Sille Ilves yn Eglwys Sant Peris.

2.00: Gweithdy cloccio gyda Carol Loughlin yn y Vaynol Arms.

4.00: Chwedlau gwerin gyda Catherine Aran yn y Vaynol Arms.

Trwy'r pwn:

Sesiwn werin yn y Vaynol Arms.

7.00 yr hwyr

Cyngerdd gyda Joe Scurfield, SILD, Clwb Ffidil yr Wyddfa a'r Didrefnwyr yn Eglwys Sant Peris.

PRISIAU:

Gweithdai: £7 a £5.

Trip dringo i blant (3 awr): £5. (Cofiwch fwcio ymlaen - lleoedd cyfyngedig.)

Cyngerdd: £8.50 a £5.00

(Popeth am ddim i blant, heblaw am y trip dringo.)

Am fwy o wybodaeth ffoniwch (01286) 871042, neu cysylltwch â www.vaynolarms.co.uk, neu nialcain@tinyworld.co.uk. Hefyd bydd tocynnau ar gael wrth y drws.



TREIALON CŴN DEFAID. Mewn cyfarfod diweddar o bwyllgor y treialon, dosbarthwyd cyfanswm o £250 i Ambiwylans Awyr Cymru a 'F.C.S.Y.M.', sef prosiect Sialens

Cymunedol Ysgol Pendalar.

Dymuna pob aelod o'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb sydd, ac a oedd yn gysylltiedig â'r treialon.

DEINIOLLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DIOLCH O GALON. Hoffai Mrs Jane Thorman Jones ddiolch i'w chymdogion, ffrindiau a theulu am y galwadau ffôn, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei anhwylder yn ddiweddar.

DYMUNA Kevin Jones, Gwelfynydd, Clwt y bont, ddiolch i'w deulu a ffrindiau am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gobowen ac Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Daeth Mr Cledwyn Jones, Bangor, ond yn wreiddiol o Ddyffryn Nantlle, i'r Gymdeithas y mis diwethaf. Rhoddodd inni yr hanes sut y daeth i ysgrifennu ei lyfr *Mi Wleddas Gaf Pig Gloyw*. Hanes John Glyn Davies 1879-1959, awdur 'Gerddi Filat Huw Puw', sydd ar gaf pob un ohonom o ddyddiau ysgol. Rhoddodd inni hanes cynnar y teulu yn Nolwyddelan a Dyffryn Nantlle, a'r dylanwad fu ar John Glyn Davies pan yn fachgen, wrth wdd o ddinas Lerpwl ar ei wyliau i wlad Llyn ac i bentref Edern.

Diolchodd Mrs Rosina Worth i Cledwyn Jones am roi inni hanes a cherndir un a wnaeth gyfraniad mor werthfawr i blant a phobl Cymru. Paratowyd lluniaeth ysgafn gan Mrs Buddug Hughes a Mrs Buddug Thomas.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 3 Mai am 7.00 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd Mr Gareth Roberts, Gallt y Foel. Croeso cynnes i bawb.

DYMUNA Eleri a Gareth, Bwthyn Isaf, ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar enedigaeth eu heffeiliaid bach. Diolch yn arbennig am y gofai i Ioan Benjamin a Dafydd Christison yn Uned Gofal Arbennig Babanod Ysbyty Gwynedd Dewi Sant ac Ysbyty Glan Clwyd.

CYMANFA'R PRESBYTERIAID. Cynhelir y Gymanfa ddydd Sul, 1 Mai yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris am 2.00 ac am 6.00 o'r gloch.

Vr arweinydd cerddorol fydd Mr Edward Morus Jones, Llandegfan. Trefnir bws i gychwyn o Ddeiniolien am 1.15 erbyn cyfarfod y pŵn ac am 5.15 erbyn cyfarfod yr hwyr. Groeso cynnes i bawb.

CYFARFOD Y CHWIORYDD. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn yn Ebeneser ar 14 Ebrill. Cafwyd sgwrs gan y Parch John Pritchard a chafwyd cyfraniad gan bob aelod yn nodi rhai o'u hoff adnoddau. Anfonwyd ein cofion gorau at Miss Jean Paro Jones, un o'r aelodau ffyddlonaf, sydd yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth.

CYMDEITHAS LENYDDOL

DEINIOLLEN. Bu'r aelodau yng Nghanolfan Arddio Treborth nos Wener, 15 Ebrill, yn mwynhau eu swper blynyddol ar ddiwedd y tymor. Cawsom swper rhagorol a sgwrs ddiddorol gan ein gŵr gwadd, y Parch Emlyn Richards, Cemais. Ei destun oedd 'Pobol Od' a chlywsom ganddo am lawer cymeriad a haeddai'r ansoddair 'od'. Cafwyd noson ddifyr iawn. Diolchwyd iddo gan y Parch John Pritchard. DYMUNA Mrs Beti Lloyd Roberts, 6 Bro Deiniol, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniodd wedi ei thriniaeth yn

Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr i bawb.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR.

Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr, Dosbarth Cwm-y-glo a Deiniolien, bawn Sul, 22 Mai, am 2 o'r gloch yng nghapel Ebeneser, Deiniolien. Arweinydd y Gân fydd Mererid Mair, Gweithwraig Ieuenctid a Datblygu Eglwysig. Gwneir casgliad at Tŷ Gobaith.

Bydd bws yn cychwyn o Orsaf Trên Bach yr Wyddfa, Llanberis am 1.15; o Gwm-y-glo am 1.25 a c o Benisarwaun am 1.30. Pris £1 i oedolion.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a strwffin mewn
rholliau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!


Cysylltwch â

**JOHN BRYNAFON
LLANRUG**

Y DYNCIG ar 075190 / 073186

Ffôn symudol: 07798 718788

wefan: www.ydyncig.co.uk



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726




Ym mis Mehefin bydd tri

MERCHED Y WAWR.
Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill yn yr

CYDYMDEIMLO. Yn ystod y mis, yn sydyn, bu farw Mrs Helen Thomas, Stryd Ganol. Estynnir pob cydymdeimlad â Cledwyn a'r teulu yn eu profedigaeth.

Maer tlws yn coroni deng
mlynedd o ymdrech gan y
pwyllgor, drwy sefydlu maes
penodol ar Faes Coed Bolyn.
Cynhaliwyd y seremoni
wobrwyo mewn noson arbennig
yn canolbwyntio ar bêl-droed
ieuenctid yng ngwesty Bro-
Morgannwg. Yno, gyda
balchder, derbyniodd Gareth
Griffith, y Cadeirydd, ac
Alwynne Jones, yr
Ysgrifennydd, y tlws gan John
Toshack.



Ymweld ag Affrica i Helpu Gwaith Atal HIV



FIS bach eleni cefais i, fy ngwraig, Cass, a'n merch fach, Ceinwen, gyfle i fynd ar daith fythgofiadwy i Lesotho. 'Y Deyrnas yn yr Awyr' - gwlad fechan fynyddig iawn yn nheubarth Affrica. Aethom fel rhan o grŵp o wyth gweithiwr gwirfoddol er mwyn ymweld â phrosiectau ym maes iechyd oedd wedi eu sefydlu dros y tair blynedd diwethaf.

Mae Lesotho yn un o wledydd tlotaf y byd, gyda HIV yn effeithio ar gymaint ag un allan o bob tri neu bedwar oedolyn ifanc, a rhannau o'r wlad yn ardaloedd o newyn hefyd.

Mae gan Gymru berthynas arbennig gyda'r wlad fechan hon ers rhai blynedd bellach, ac rydym ni tua'r un boblogaeth a maint dacaryddol gyda digonedd o ddŵr, diwydiant ffermio a thraddodiad gwaith glo.

Cychwyn un bore o'r Gwm y Glo, fi yn rhinwedd fy swydd fel meddyg teulu, Cass y cerddor a Ceinwen yn faban tri mis oed! Bŵm i draw yno sawl gwaith o'r blaen yn cynllunio gwaith atal a thrin HIV ond dyma'r tro cyntaf imi gael cwmni fy nheulu ar y daith. Gyda chymorth Sefydliad Bwyd Y Byd, ysbyty lleol Tebellong ac eglwys yn Lesotho a Chymru, y bwriad y tro hwn oedd hyfforddi a chyflogi gweithwyr cymunedol ar gyfer gwaith atal HIV a TB.

Cyfraniad Cass a Ceinwen oedd helpu i sefydlu perthynas dda gyda'r bobl yno a chawsant gryn lwyddiant. Ceinwen oedd seren y sioe a rhoddwyd yr enw Lesotho, 'Palesa', arni (sydd yn golygu blodyn) - felly 'Me ma Palesa' neu 'mam Palesa' oedd Cass!

Aethpwyd ati gyda'r gwaith. Penodwyd pedwar gweithiwr cymunedol gan ddwy eglwys leol, un yn eglwys Babyddol a'r llall yn Eifengylaidd. Cafwyd hyfforddiant yn ystod y mis i'r pedwar, o dan arolygaeth nyrs cymunedol brofiadol o'r enw Me Ma Mphutlane. Yn ogystal â'i gwaith roedd Me Ma Mphutlane yn edrych ar ôl deg o blant, dau o'i phlant ei hun ac wyth o blant o'i chwaer a fu farw. Mae lleian o'r

enw Sister Virginia hefyd yn cynorthwyo.

Codwyd adeilad traddodiadol allan o gerrig a mwd fel canolfan, ar bwys yr ysgol. Bydd hwn yn ddosbarth ysgol yn ogystal â chanolfan HIV. Cyflogwyd adeiladwr lleol i wneud y gwaith, gyda chymorth deuddeg o wirfoddolwyr ac un aelod o'r tîm iechyd. Cafodd y gwirfoddolwyr eu gwobrwyo gan Sefydliad Bwyd y Byd o dan y cynllun 'Bwyd am Waith'.

Cam pwysig cyntaf unrhyw ymgyrch atal HIV yw addysgu, a rhoi cyfle i bobl gael prawf i ddarganfod eu statws HIV. Roedd rhaid i'r pedwar gweithiwr ymarfer sut i helpu pobl i ddeall a pharatoi ar gyfer y profion. Yn Lesotho, mae ofn mawr yn codi wrth ymwneud â HIV a stigma ofnadwy ynghlwm wrth y clefyd, er bod pawb yn colli aelodau teulu ac yn gweld pobl ifanc yn sâl yn ddyddiol. Serch hynny, cyn mis Chwefror, roedd llai na deg prawf y flwyddyn yn cael eu cynnal ar bobl, ar wahân i bobl oedd bron â marw yn barod yn yr ysbyty.

Yr ail gam yw darparu gofal a chymorth ymarferol i'r rhai sydd yn profi'n bositif i'r haint. Mae bwyd da a dŵr glân yn holl bwysig. Mae'n hawdd dyblu disgwyliad oes trwy fwyta ac yfed yn ddiogel. Rhan o waith y gweithwyr yw dysgu sgiliau ffermio cynladwy a darparu cymorth ymarferol i'r rhai sydd yn rhy wan i dyfu eu bwyd eu hunain.


Y trydydd cam yw cynnig triniaeth: un ai yn erbyn afiechydon fel TB, sydd yn aml yn manteisio ar bobl HIV, neu driniaeth yn erbyn trosglwyddiad HIV o'r fam i'r plentyn. Ym Mhrydain mae pawb sydd tua hanner ffordd trwy'r salwch yn cael cynnig dechrau triniaeth gyda thri chyffwrth pŵerws yn erbyn yr HIV, triniaeth sydd yn para hysbysu. Nid yw'r driniaeth hon ar gael ym mynyddoedd Lesotho eto. Paratoi'r ffordd ar gyfer hyn yw dyletswydd y gweithwyr.

Lleihau'r gyfradd trosglwyddo'r feirws a threfnu darpariaeth a hawliau i'r plant a'r

Dosbarthu anrhegion o ddillad, blancedi a thedi bērs i deuluoedd tlawd.



Yr adeilad wrth i ni gyrraedd.



Yr adeilad gorffenedig!

teulu yw'r cam olaf. Mae nifer fawr o blant amddifad yn yr ardal sydd yn byw fel teuluoedd, heb oedolyn i'w gwarchod. Maent yn dioddef diffyg cariad, bwyd, pres a chymorth ymarferol. Roeddem yn gobeithio y byddai'r pedwar gweithiwr a'r lleian ffyddlon yn gallu darparu ychydig o'r rhain.

Mae'r gweithwyr wedi eu cyflogi am y chwech mis nesaf ond cafwyd trychineb pan laddwyd Me Ma Mphutlane mewn damwain ffordd erchyll. Roedd hyn yn ergyd fawr i bawb - yn enwedig i'r deg ifanc oedd yn ei galw yn fam.

Mae Sister Virginia wedi camu i'r bwlch ac yn arwain y tîm bellach. Glywyd heddiw eu bod wedi cynnal 40 prawf a chael pump yn ôl yn bositif yn

ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf erioed i bobl yr ardal gael cyfle i wybod sut mae'r clefyd yn effeithio arnynt. Nawr gallant ofyn am driniaeth briodol a gwybodaeth am sut i edrych ar ôl eu hunain a'u teuluoedd.

Diolchwn yn fawr i lawer o gefnogwyr, ac yn enwedig i Eglwys Nantperis a'r Parchedig Deiniol Morgan am eu rhoddion o ddillad plant i'r amddifad, a phres at godi'r adeilad gwerthfawr. Crocsawn unrhyw ddiddordeb mewn ymestyn y gwaith i'r dyfodol. Mae croeso ichi gysylltu os hoffech gyfrannu neu glywed mwy:

Dr Graham Thomas,
Min Y Nant, Allt Goch, Cwm Y Glo.
Ffôn: (01286) 871042
ebost: pysgodyn@fish.co.uk

CHWILOTA

Bwyd Parod, Pryd?



Dros yr wythnosau diwethaf rhoddwyd cryn sylw ar y cyfryngau i werth bwyd ysgol. Daeth rhaglen Jamie Oliver i gryn amlygrwydd wrth iddo geisio perswadio un o gynghorau Llundain i newid yn gyfan gwbl eu dulliau o baratoi bwydydd gogyfer â phlant ysgol. Yn ddiweddarach, cafwyd addewid gan y Llywodraeth fod arian ychwanegol i'w wario - yn Lloegr o leiaf - ar brydau bwyd ysgol. Bu dadleuon yma yng Nghymru hefyd ynglŷn â rôl y Cynulliad a'i wariant ar brydau ysgol. Gyda'r lecsiwn ar ein gwarthaf, bydd yn rhaid disgwyl cyn cael gweld a fydd unrhyw newid syfrdanol yn y gwariant, ond yn bwysicach, a fydd unrhyw newid syfrdanol yn ansawdd y bwyd gaiff ei arlwyio.

Beirniadwyd rhai mathau o brydau parod yn hallt iawn gan Jamie Oliver oherwydd nad oedd nemor ddim maeth ynddynt. Ond mae prydau parod wedi eu paratoi ers degawdau o flynyddoedd, a bwriad yr arloeswyr a fu'n arbrofi yn y maes oedd cadw cymaint o ddaioni a maeth yn y bwydydd cadw hyn ag oedd bosibl.

Pwy felly oedd y rhai cyntaf i 'gadw' bwyd?

Roedd halltu, sychu a mygu wedi bod yn digwydd ers canrifoedd, ond gweddol ddiweddar yw'r arferiad o botelu bwyd neu ei gadw mewn tuniau.

Mae llawer o'r clod am gadw bwyd mewn tuniau yn cael ei roi i Ffrancwr o'r enw Nicolas Appert, a anwyd yn 1750. Pan oedd yn ddeg ar hugain oed, sefydlodd ei fusnes bwyd ei hun ym Mharis a dechrau arbrofi mewn dulliau o gadw melysion a ffrwythau mewn siwgr. Yn raddol, datblygodd ei ddiddordeb mewn cadw bwydydd eraill. Credai fod sychu bwyd yn golygu fod ei arogl yn cael ei golli, a bod halltu bwyd yn ei wneud yn anodd ei dreulio. Dechreuodd arbrofi drwy stwffio ffrwythau, llysiau neu gigoedd i boteli 'champagne' (gwag!) a'u rhoi i sefyll mewn bath o ddŵr poeth. Bu'n arbrofi am dros ddeng mlynedd nes credu ei fod wedi perffeithio'i system.

Yn 1803, a llynges Ffrainc dan warchae oddi wrth longau rhyfel Prydain yn Brest, anfonwyd poteli o'i fwydydd i'r llongwyr. Roedd y poteli, a oedd yn cynnwys cawl, biff, pys a ffa wedi eu cadw ers dros dri mis. Derbyniwyd adroddiadau ffafriol am eu blas, ac o fewn blwyddyn, roedd Appert wedi sefydlu 'ffatri' i gynhyrchu'r bwydydd cadw hyn. Archebodd boteli o wydr cryfach, gan wneud cacadau allan o gorwyn. Câl'r bwyd ei gau oddi fewn; y cacad ci gau mor dynn â phosibl a'i gadw yn ei le â weircn, a'r cyfan yn cael ci ochio â bitch.

Erbyn hyn, roedd unigolion eraill hefyd yn dechrau ei

efelychu ac yn ceisio gwella ar ei ddulliau. Un o'r rheini oedd Bryan Donkin o Lundain, a brynodd batent ar y dull o gadw bwyd am £1,000. Gyda'i bartneriaid, John Gamble a John Hall, dechreuodd gynhyrchu bwydydd cadw yn ffatri Dartford Iron Works, ond gan ddefnyddio tuniau yn hytrach na photeli wedi eu selio. Dyma'r cwmni cyntaf yn y byd i ddechrau gwerthu bwydydd cadw mewn tuniau.

Roedd Bryan Donkin yn ddyfeisiwr medrus, ac ef fu'n gyfrifol am gynllunio'r hyn a elwid yn *tinplate cannisters*. Yn ddiddorol, dewisodd y Saeson eu galw'n 'tin', a'r Americanwyr yn defnyddio'r term 'can'. Un o'r problemau oedd fod tuniau'n chwythu i fyny oherwydd y gwres. Ceir un enghraifft o weithiwr yn cael ei ladd gan dwrci, wrth i hwnnw gael ei ferwi mewn tun. Ffrwydrodd y tun gyda'r fath bŵer nes lladd y gweithiwr druan. Yn ôl adroddiad cyfoes am y digwyddiad dywedwyd fod y 'twrci wedi dianc o'i arch dun a pharatoi ei ferwr ar gyfer arch bren!'

Yn raddol dros y degawdau nesaf bu nifer o welliannau i'r gwahanol brosesau o gadw bwydydd mewn tuniau, ac erbyn 1849 roedd peiriant wedi ei ddyfeisio oedd yn galluogi dau weithiwr i lenwi 1500 o duniau bwyd bob dydd. Erbyn 1870 roedd America ymhell ar y blaen i bob gwlad arall yn y busnes hwn, ond roedd gwledydd fel Awstralia a'r Ariannin hefyd yn manteisio ar y dulliau hyn er mwyn allforio cigoedd mewn tuniau.

Pryd felly y daeth y tun bwyd cyntaf i fro'r Eco? Does gen i ddim ateb i'r cwestiwn; ond mae'n sicr fod tuniau bwyd ar gael yn yr ardal erbyn canol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan fod y rheilffordd eisaf wedi cyrraedd Llanberis erbyn 1870, a chario nwyddau i'r ardal o bellafodd Prydain (a thu hwnt) yn bosibl. Diddorol fyddai cael yr amser i bori drwy newyddiaduron cynnar i chwilio am hysbysebion yn hawlio fod tuniau bwyd ar gael

mewn siop arbennig. Tybed pwy o'r darllenwyr all ddarganfod y cyfeiriad cynharaf at fwyd tun ym mro'r Eco?

Damweiniau yn y Waunfawr
Gyda diolch i ddarllenwr cyson o'r golofn am anfon gwybodaeth am ddwy ddamwain angeuol a ddigwyddodd yn y Waunfawr yn ystod 1858.

Mae un yn cyfeirio at storm anferthol, a cheir adroddiad amdani yn *Yr Herald Cymraeg*.

'Yr oedd yr olwg ar y gwefr fflamlyd yn melltenu, a sŵn trystfawr y tarannau yn llenwi pawb â braw. Lladdwyd lliaws o ddefaid gan y mellti, a phedair o wartheg godro; un i Anne Jones, Ty'n y Gerddi, a thair i Thomas Williams, Tai Isaf. Yr oedd y mellti wedi rhychu y ddacar gerllaw y gwartheg.'

Ond yr oedd gwaeth na cholledion da byw yn yr ardal.

'Pan oedd gwraig Hugh Thomas, Bryn Golau, yn darparu boreufwyd, ac yntau'n gwisgo mewn ystafell arall, daeth mellten i mewn i'r tŷ, a rhoddes dro i'r wraig ar y llawr. Tarawodd y gŵr fel y bu farw yn y fan. Gwnaeth niwed i'r simdde, holltodd y corn o'r top i'r gwaelod a thafswyd llechi oddi ar y to.'

Dywedwyd fod Hugh Thomas yn gymydog da, ac yn aelod gyda'r Annibynwyr yn y Waun. Gadawodd weddw a phedwar o blant yn amddifad.

Ym mis Mehefin o'r un flwyddyn adroddir fel y bu i Thomas Davies o'r pentref osod bachau pysgota mewn pwll yn

Afon Gwyrfa, a phan aeth yno'n ddiweddarach i weld a oedd wedi dal rhywbeth, llithrodd ar garreg a disgyn i'r dŵr.

'Nid oedd y dŵr dros ei ben, ond yr oedd yno lawer o laid, a suddodd yntau iddo. Boddodd er pob ymdrech i'w waredu.'

Gwybodaeth am y Parch W. Ryle Davies

Daeth cais gan un o ddarllenwyr y golofn am wybodaeth ynglŷn â'r gweinidog hwn, a fagwyd yn y fro. Ei gartref oedd Pen yr Inclên, Clwt y Bont, ac fel llawer o fechgyn eraill yr ardal, aeth i weithio i'r chwarel yn ddeng mlwydd oed. Addysgodd ei hun a dilynodd gyrsiau yng ngholegau'r Bala a phrifysgol Cacerdin. Bu'n weinidog ar Eglwys Disgwylfa o 1879 hyd 1884.

Ysgrifennwyd cofiant iddo gan y Parch R. Humphreys. Mae'r cais yn holi'n arbennig am ddyddiaduron a gadwodd y Parch W. Ryle Davies tra bu'n weinidog yn Nisgwylfa. Oes rhywrai o'r darllenwyr â gwybodaeth am y dyddiaduron hyn?

Gyda llaw, deillia'r enw anghyffredin 'Ryle' o gartref y teulu, sef Ty'n'raelgerth, yng Nghwm Brwynog uwchlaw Llanberis.

Prin fu'r ymateb y mis diwethaf, felly anfonwch unrhyw sylw neu gais am wybodaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: (01286) 673515).

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONTWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

UN FUNUD FACH

ANGHYFNEWIDIADWY

Dyna i chi glamp o bennawd a chlamp o air. Dwi wedi blino'n lân ar ôl ei deipio fo heb sôn am ei ddeud o! Dwn i ddim sut siâp fydd arna i erbyn i mi gyrraedd gwaelod y golofn hon.

Noson ethol y Pab newydd gwelwyd Jeremy Paxman yn dotio at y defnydd o'r gair gan offeiriad o'r Alban ar raglen *Newsnight*. Llywio trafodaeth oedd Paxman rhwng yr offeiriad a gwraig oedd yn gyn-olygydd y *Catholic Herald*. Roedd hi'n gofidio bod y Pab newydd yn 'geidwadol; ac yn debygol o arddel yr un daliadau â'i ragflaenydd. Daliai'r offeiriad bod rhai pethau ynglŷn â'r Ffydd Gristnogol y mac'n rhaid eu cadw a'u diogelu beth bynnag fo barn neu dueddiadau'r oes. Mae rhai pethau yn anghyfnawidiadwy, neu yn ei ciriau ef yn 'non-negotiable'.

Wrth i'r ddadl boethi eisteddodd Paxman 'nôl yn ei gadair mewn edmygedd gan addef bod yr offeiriad 'yn fwy nag abl i'w amddiffyn ei hun'.

Fyddwn i a'r offeiriad ddim yn unfryd ynglŷn â phob dim 'anghyfnawidiadwy', ond gallwn ei edmygu am ei gadernid ac am ei ffyddlondeb i'w gred ei hun ac i gred ei eglwys. Oherwydd i lawer ohonom ychydig iawn o bethau ynglŷn â'r Ffydd sy'n 'anghyfnawidiadwy'. Gwaetha'r modd mae'r cyfan yn 'negotiable' yn aml iawn, â phobl yn credu bod modd trafod ac anghydweld a newid popeth y mae'r Eglwys wedi ei gredu a'i weithredu erioed.

'Y Beibl, Gair Duw, yw sylfaen ein holl gred' –
anghyfnawidiadwy!

'Iesu Grist, Fab Duw, yw'r unig ffordd at y Duw byw' –
anghyfnawidiadwy!

'Roedd raid i Grist Iesu farw drosom ar Galfaria' –
anghyfnawidiadwy!

'Atgyfododd Iesu' –
anghyfnawidiadwy!

'Trwy ffydd yn Iesu Grist, ac nid trwy unrhyw beth a wnawn ni, y byddwn gadwedig' –
anghyfnawidiadwy!

'Caru Duw a charu cymydog yw'r ddau orchymyn mwyaf' –
anghyfnawidiadwy!

'Cymdeithas o bobl sy'n credu yn Iesu Grist yw'r Eglwys' –
anghyfnawidiadwy!

Nid pethau i'w trafod mohonynt ond rhai o'r pethau anghyfnawidiadwy.

JOHN PRITCHARD

PWYLLGOR APÊL LLANBERIS –

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU 2005

CYNGERDD

Mynydd Gwefru, Llanberis nos Wener, 13 Mai am 7.30

gyda

Hogia'r Wyddfa • Annette Bryn Parri

Côr Cyntaf i'r Felin • Glesni Owen (Hendre Cenin)

Arweinydd: Gwyn Parri

Tocynnau £5 i oedolion; £3 i blant

Tocynnau ar gael drwy ffonio (01286) 871954

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

R. L. DAVIES

Coed Belyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tonnall diggers bychain ac excavators 360° newyddda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG



GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I CYNCHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRŴPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- KWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRWG.

Am fwy o fanylion am ein telthiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr

Llanberis

Ffôn: 870088



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

YSGOL BRYNREFAIL

Y Trip Sgïo

Dyma brif ddigwyddiad yr Ysgol dros y mis diwethaf heb amheuaeth, ac felly dyma gyfle i rannu profiadau'r rhai fu'n ddigon ffodus i fynd i Marsella yn Sbaen am wythnos gron dros wyliau'r Pasg.

'Yr atgof mwyaf diddorol i mi oedd y diwrnod olaf pan aethom i fyny'r mynydd a sgïo am y tro olaf. Syrthiais tua 16 o weithiau y tro cyntaf, ond dim ond pedair gwaith y tro olaf hwnnw - roeddwn i wedi gwella!'

Iona Speake

'Uchafbwynt y gwyliau i mi oedd cael mynd ar lifft gadair a gweld golygfeydd godidog Marsella. Yna, cael eirafyrddio i lawr y llethrau serth, ac ailadrodd hyn faint bynnag o weithiau ag y dymunwn.'

Sion Emyr

'Y darn gorau o'r trip oedd mynd i lawr y llethrau a derbyn hyfforddiant gan athrawon profiadol - na nid rhai Brynrefail!'

Gerallt Roberts

'Ffantastig oedd cael sgïo gyda thywydd gwych ac athro hynod olygus!'

Lowri Jones

'Sgïo ar eira go iawn am y tro

cyntaf, wna i byth ei anghofio - profiad gwych! Ond yr hyn a wnaeth fy niwrnod oedd gwrando ar Mrs Eirwen Williams yn canu carioci!'

Hawys Price

'Un digwyddiad cofiadwy oedd chwarae tric ar yr athrawon ar ddydd Ffŵl Ebrill trwy ddweud fod llygoden yn ein hystafell!'

Zoot Warren

'Wna i fyth anghofio ceiso sgïo mewn pâr gyda fy ffrind, Ella. Aeth hi allan o reolaeth ac ar ei phen i mewn i goeden. Bûm yn chwerthin am hydoedd!'

Danielle Cavanagh

Wedi wythnos hir a hwyliog, dychwelodd y criw yn dra anfoddog tua Chymru fach, gyda llu o atgofion (ac anafiadau!) yn eu meddiant. Yr oedd diolch y disgyblion i'r athrawon hynny a ildiodd eu gwyliau er mwyn mynd ar daith yn ddidwyl, a chanmoliaeth yr athrawon am ymddygiad plant Brynrefail yn destun balchder. Y cwestiwn mawr yw, i ble'r awn ni'r flwyddyn nesaf?

Y criw fu'n eirafyrddio. Aw!



Y criw i gyd yn Puigcerda, ar ôl bod yn gwarïo.



Yn Masella ym mynyddoedd Catalunya.



Yr athrawon yn mwynhau pum munud o lonydd!



Y Dechreuwyd wedi cyrraedd copa'r mynydd erbyn diwedd yr wythnos. Ond lle mae Mrs Eimir Roberts?



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth:

£40: Norman Williams, Lidiart Wen;
£25: E.W. Roberts, 10 Ael y Bryn;
£10: Mr a Mrs Alan Denton, Ffordd Felen.

CÔR Y WAUN. Hoffwn ymestyn ein llongyfarchiadau i Rhiannon ac Andrew ar enedigaeth Guto a dymuno'r gorau ar gyfer y dyfodol. Deallwn fod nain (Ann Pritchard, cyfeilyddes y côr) yn brysur iawn!

Erbyn cyhoeddi'r *Eco* bydd y cyngherddau yng Nghapel Salem, Caernarfon, i godi arian i Tŷ Gobaith wedi bod, felly cymerwn y cyfle i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Mae cyhoeddiad nesaf y côr yng ngwesty'r Victoria, Llanberis, ar 9 Mehefin. Os ydych eisiau trefnu noson gyda'r côr cofiwch gysylltu â'r ysgrifennydd, Emyr Roberts ar (01286) 650128.

PRIODASAU

Ar Ynys Iona, yn yr Alban, priodwyd Dafydd Williams (yr arlunydd) â Iona Parry o Ddinas Mawddwy. Dymunwn yn dda iddynt ar eu priodas a phob hapusrwydd yn eu cartref, Tŷ Mawr.

Dydd lau cyn Gwener y Groglith, yn Nhrawsfynydd, priodwyd Ffion Meleri Edwards, Melin y Wig, ac Alun Dafydd Ellis o Drawsfynydd. Llongyfarchiadau iddynt a phob hapusrwydd yn eu cartref, Pistyll Cain, Llanrug.

PROFEDIGAETHAU

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Marc Jones, 7 Ael y Bryn, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Mary Williams, a arferai fyw yma yn y Waunfawr.

Yn frawychus o sydyn, bu farw Mrs Karen Humphreys, Gwesty Parc Snowdonia. Cydymdeimlwn â'i theulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn â Bethan, Helen ac Eleri, merched y diweddar Mr Robert David Roberts o Gwaungynfi, Groeslon (gynt o Tŷ Capel Croesywaun).

Anfonwn ein cofion cynhesaf a'n cydymdeimlad at Mrs Carys Jones a theulu Ty'n Cae, yn eu profedigaeth o golli tad Carys yn ddiweddar.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Dylan Rhys Jones, Eryri Wen, a Mr Richard Charge, Llifon, adref o'r ysbty wedi iddynt dderbyn llawdriniaeth. Dymunwn adferiad iechyd buan i'r ddau.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Gwenlli Williams, Ardwyn, sydd yn yr ysbty ar hyn o bryd, ac at Sara Gwastadfaes, sydd wedi cael damwain a brifo ei chefn. Gobeithio y byddwch yn gwella yn fuan.

Hefyd gobeithio y bydd Catrin, 6 Ael y Bryn, yn gwella wedi iddi frifo ei llaw yn nrws y car.

YMDDEOLIAD HAPUS. Tristwch oedd clywed y bydd Siop y Pentref yn cau ddiwedd y mis yma ac na fydd siop yma mwyach. Wrth ddymuno ymddeoliad hapus i Mr a Mrs Henderson, diolchwn iddynt am eu gwasanaeth i drigolion y pentref dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig i'r henoed. Bydd y Swyddfa Bost yn dal ar agor.

DERBYN ECO'R WYDDFA. Roedd amryw ohonoch yn prynu yr *Eco* yn siop y Pantafon ac felly yn awr yn methu ei gael. Os hoffech dderbyn copi o'r *Eco* yn rheolaidd bob mis, cysylltwch â Marian Jones, Dol Erddi, neu fi, a gallwn ofyn i'r dosbarthiudd yn eich cylch ddod ac

un i chi, neu gallwch ei dderbyn drwy'r post os ydych yn byw oddi allan i'r pentref. Holwch am y trefniadau.

BEDYDD. Yn ystod oedfa bore Sul y Pasg yng nghapel y Waun, gyda'r Parchedig Gwynfor Williams yn gwasanaethu a Mrs Rhian Ellis wrth yr organ, bedyddiwyd Iwan Ynyr, mab bychan Paul a Valmai Evans, Rhosllwyn.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir Eisteddfod Bentref Waunfawr am 1.00 o'r gloch ar 7 Mai, yng Nghanolfan y pentref.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

MYNWENT SANT PERIS, NANT PERIS. Bwriedir, fel y llynedd, roi diwrnod i dorri'r gwair a thwtio'r fynwent o gylch eglwys Sant Peris. Gwahoddir gwirfoddolwyr i ymgymryd â'r gwaith, i ddechrau am 9.30 y bore ar fore Sadwrn, 4 Mehefin. Bu'r ymgyrch yma yn llwyddiannus dros ben ac yn llawn hwyl y flwyddyn ddiwethaf. Beth am ymuno â ni eleni? Cysylltwch â'r Parch Deiniol Morgan ar 873678.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL LLANBERIS. Daeth tymor y Gymdeithas i ben gyda

chinio ardderchog yn y Bistro, Llanberis, ar nos Fawrth, 5 Ebrill.

Cafwyd noson hwyliog braf yng nghwmni'r gŵr gwadd, Dei Tomos, Nant Peris. Soniodd am y newid mawr a fu, o ran bwyd, ac fel y mae yn cael ei gludo o bell ar ein cyfer. Clywsom hefyd am rai o'i deithiau tramor a'r bwydydd a flaswyd yno ganddo.

Llywyddwyd y noson gan y Parch John Pritchard. Diolchwyd yn gynnes i'r gŵr gwadd a phawb fu'n gysylltiedig â llwyddiant y noson gan Mrs Falmai Pritchard.

Bydd y Gymdeithas yn aildechrau eto yn yr hydref, a bydd creso mawr i bawb ymaelodi bryd hynny.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR.

Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr, Dosbarth Cwm-y-glo a Deiniolen, bnawn Sul, 22 Mai, am 2 o'r gloch yng nghapel Ebeneser, Deiniolen. Arweinydd y Gân fydd Mererid Mair, Gweithwraig Ieuencid a Datblygu Eglwysig. Gwneir casgliad at Tŷ Gobaith.

Bydd bws yn cychwyn o Orsaf Trên Bach yr Wyddfa, Llanberis am 1.15; o Gwm-y-glo am 1.25 a c o Benisarwaun am 1.30

Pris £1 i oedolion.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Cymerodd y Côr ran mewn dau gyngerdd yn ddiweddar. Ar 3 Mawrth, buont yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda Chymdeithas Capel Ebeneser, Caernarfon.

Wythnos yn ddiweddarach, ar 10 Mawrth, cymerodd y Côr ran mewn cyngerdd, er budd Capel Bosra yn Ysgol Penisarwaun.

Mae'r Côr wedi ailgychwyn eu hymweliadau misol â Gwesty Victoria, Llanberis.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407



Eurgain Haf a'i ffrind, Bili.

FFERM FFION. Llongyfarchiadau i Eurgain Haf ar ei chyfrol ddiweddaraf i blant rhwng 8 a 10 oed. Cyfres o ddeuddeg stori yn cynrychioli 12 mis y flwyddyn; a sut mae Ffion a'i theulu yn treulio'u blwyddyn gyntaf ar fferm Maes Melangell, fferm ymwelwyr go arbennig. Y mae'r gyfrol yn gyflwynedig i'w nai bach, Gwydion Rhys, mab bychan ei brawd Osian a Sara, Brynrefail.

Llongyfarchiadau, Eurgain, a dal ati.

CRONFA'R PENSIYNWYR.

Enillwyr Pêl Bonws Loteri Mawrth oedd Dave a Cheryl, Tai Bwthyn - Rhif 26. Mae ychydig o rifau yn weddill. Os oes unrhyw un â diddordeb cysyllter â Liz (872421). Am £1 y mis cewch gyfle i ennill £25 a chyfrannu yn fisol i'r gronfa. Diolchir i bawb am y gefnogaeth. **YR URDD.** Pob dymuniad da i Anest Eifion, Winllan, gyda'i Stepio Unigol i ferched rhwng 15-25 oed yn y Genedlaethol yng Nghaerdydd. Pob lwc Anest.

Dymunwn yn dda i holl aelodau'r Fro yn y Ddinas Fawr.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau mawr a phob bendith i Huw Tegid ac Eirian o Langefnî ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar.

PRIODAS HAPUS. Pob bendith i Llion Roberts, Tai Croesion, a Sarah ar achlysur eu priodas ar 22 Ebrill yn Eglwys y Gelli, Tregarth, gyda'r brecwast priodas ym Meirnod. Ein dymuniad da i chi.

GWELLHAD. Anfonir y cofion anwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref

ac yn derbyn triniaeth yn yr ysbty. **CROESO ADRA.** Braf cael croesawu Gwenllian (Tawelfa gynt) a Carl a'r plant, Efa a Iago, yn ôl i Gymru wedi cyfnod hapus yn Seland Newydd.

PRIODAS AUR. Llongyferchir Huw a Beti Pritchard, Rhosgadfan, ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Un o Cytir, Brynrefail yw Beti, bu'n ddisgybl yn Ysgol Tan y Coed, ac yn aelod o Eglwys Santes Helen, ac yno y priododd Huw a hithau. I ddathlu hanner can mlynedd o briodas hapus trefnwyd parti bach gan Heulwen, Deiniol, Urien a Mari, Bryn Eglwys. Dymuna'r ddau ddiolch iddynt am eu caredigrwydd.

Da deall fod Huw yn gwella wedi llawdriniaeth fawr yn Ysbyty Maelor, Wrecsam yn ddiweddar.

Dymunant ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau o Fro'r Eco am y llu cardiau a'r anrhegion ar achlysur hapus.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr yw: Kate Rosser, 5 Llys y Gwynt; Ann Ifans, Sycharth; Elinor Jones, 2 Bron y Waun.

Llongyfarchiadau, Kate. Braf gweld aelod newydd yn ennill yn syth wedi iddi symud o Rhiwlas i Benisarwaun.

Buasem yn falch o weld mwy o aelodau newydd yn ymuno â'r Clwb Cant - dim ond 500 y mis, neu 20 y flwyddyn. Mae'n hwb sylweddol tuag at reddeg y Neuadd Gymuned.

Nos Wener, 20 Mai am 6.30 ar fuarth yr Ysgol Gymuned, neu yn y

Neuadd os nad yw'r tywydd yn ffafriol, cynhelir **MIRI MAI**, gydag amrywiol stondinau, Raffl a Cŵn Poeth. Os dymuna unrhyw un gynnal stondin i werthu eu cynnyrch eu hunain, pris y bwrdd gwerthu fydd £5. Buasai'n braf cael byrddau o gynnyrch gardd, cynnyrch cartref a chrefftau. Bydd y byrddau fydd yn gwerthu tuag at y Neuadd yn rhad ac am ddim. Darperir amrywiol gemau i blant gan y Prifathro, Gareth Jones, a disgyblion Blwyddyn 5 a 6.

YSGOL SUL BOSRA. Dyma dymor bryllymus i bawb yn yr Ysgol Sul, gyda dwy Gymanfa a'r Gymdeithas Feiblaidd o'n blaenau - heb anghofio'r **TRIP**, fydd ar yr ail Sadwrn yng Ngorffennaf eleni.

Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr bnawn Sul, 22 Mai, am 2.00 o'r gloch yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen. Cymerir rhan gan Ysgolion Sul Dosbarth Cwm-y-glo. Arweinydd y gân fydd Mererid Mair, Gweithwraig Ieuencid a Datblygu Eglwysig. Gwneir casgliad tuag at Tŷ Gobaith.

Y mae bws wedi ei drefnu i gychwyn o Orsaf Trên Bach yr Wyddfa. Bydd yn Llanberis am 1.15; Cwm-y-glo am 1.25 a Penisarwaun am 1.30.

Rydym fel aelodau'r Ysgolion Sul a Phwyllgor y Gymanfa yn anfon ein cofion anw Parc Jones, Deiniolen, sy'n derbyn triniaeth yn yr ysbty.

YN BARBADOS! Llongyfarchion gwresog i Sioned a Martin Parry, Llys yr Awel, ar achlysur eu priodas yn Barbados ar 19 Ebrill. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir
Dinorwig. Ffôn: 870292

CLWB ORWIG. Cyfarfu aelodau o'r clwb uchod ar 17 Mawrth, a bu rhagor o drafod y trefniadau ar gyfer codi'r Gofeb i'r Chwarelwyr. Mae'r garreg ar gyfer y Gofeb eisoes wedi ei gosod yn ei lle.

Cytunodd wyth o'r aelodau i ymuno â Chwrs Cyfrifiaduron o 20 wythnos a drefnir gan Goleg Menai. Enillwyd y Bingo oedd John Cantrell, Morfudd Jones, Nellie Wyn Jones a Kathleen Davies, ac enillwyd y raffl gan Kathleen Davies, Betty Bower, Nellie Wyn Jones a Margaret Faulkener. Rhoddwyd y gwobrau gan Joan a Dennis Glass a rhoddwyd y te gan Megan Morris ac Alice Griffith.

LLONGYFARCHIADAU. Yr wyf yn sicr ein bod yn llongyfarch Rachel Mai Williams, Pen y Bwlch ar lwyddo i gael belt glas, Karate, yn Llanberis. Da iawn chdi, Rachel. Dal ati.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon.
Ffôn: (01286) 872275

DIOLCH. Dymuna Les ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau a rhoddion a dderbyniodd tra yn cael triniaeth yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, ac ar ôl dod gartref.

DYMUNA Maldwyn a Jean ddiolch am y llu cardiau, arian, anrhegion, blodau a'r holl ddymuniadau da a dderbyniwyd ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill yn yr Ysgol Gymuned nos Lun, 4 Ebrill. Y siaradwr gwadd oedd Mr Stanley Owen o Lanrug, a roddodd sgwrs ddiddorol am ei ymweliad diweddaraf ag Uganda. Hefyd dangosodd amryw o anrhegion gwyh wedi eu gwneud gan y trigolion.

Yn gofalu am y baned yr oedd Meira a Dorothy, a roddodd y raffl hefyd. Diolchwyd iddynt ac i'r siaradwr gan Joyce. Enillwyd y raffl gan Marjorie.

DIOLCH yn fawr i'r criw bach ffyddlon a ddaeth i blygu rhifyn diwethaf yr Eco. Diolch yn arbennig i'r bobl ifanc.

PRIODAS AUR. Llongyfarchiadau i Mr Maldwyn a Mrs Jean Hughes, 2 Bryn Gro ar ddathlu eu Priodas Aur. CYMANFA'R ANNIBYNWYR.

Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr, Dosbarth Cwm-y-glo a Deiniolen, bnawn Sul, 22 Mai, am 2 o'r gloch yng nghapel Ebeneser, Deiniolen. Arweinydd y Gân fydd Mererid Mair, Gweithwraig Ieuenctid a Datblygu Eglwysig. Gwneir casgliad at Tŷ Gobaith.

Bydd bws yn cychwyn o Orsaf Trên Bach yr Wyddfa, Llanberis am 1.15; o Gwm-y-glo am 1.25 a c o Benisarwaun am 1.30.

Pris £1 i oedolion.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwalth), 677438 (cartref)

MARATHON LLUNDAIN. Llongyfarchiadau i Hefin Hughes. Lleifior gynt, ar redeg 26 milltir (a mwy) yn Llundain mewn llai na 4 awr.

TYNFA MISOL CYMDEITHAS Y CAE CHWARAE. Enillwyd mis Ebrill oedd: £40: (33) Cledwyn Hughes, Ysbyty; £25: (78) Mary Henderson, 6 Erw Wen; £15: (74) Mark Bee, 4 Tai Glangwna; £5: (01) Dafydd Iwan, Carrog.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Mai:

1: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Eric Jones

8: 11.00 Ysgol Sul
15: 10.00 Mr Dafydd Iwan

11.00 Ysgol Sul

22: 11.00 Ysgol Sul

29: Dim gwasanaethau

YN GWELLA. Croeso adra i Anti Mary (Henderson), 6 Erw Wen ar ôl triniaeth ar ei llygaid.

Cefnogwch
ein Hysbysebwyd

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**


21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Facs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Ynnetian a Llenni Foler.

5,000 llathen sgwar o garpedi mewn stoc -
allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI
GVDA STIMVAK

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau
Sul a Mercher

APÊL 5C HAF

**Taith Gerdded Noddedig
i fyny'r Wyddfa i godi arian i'r
Ambiwlans Awyr**

Os am gymryd rhan neu gyfrannu,
ac am fwy o wybodaeth,
cysylltwch â

Karen Jones ar **881138**
neu Irfon Thomas ar **673929**



Tawelwch Meddwl

I lanhau a thwtio beddau,
ailadeiladu, peintio â phaent neu aur
yn y llythrennau - yna cysylltwch â

Hywyn ar **01286 830150**

neu **07810 522303**

Gwasanaeth lleol a sylw arbennig.

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



**Quality Hotel
Llanberis**

(Gwesty'r Fictoria gynt)
- rhan o CHOICE HOTELS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

Dodrefn Da am Bris Discount
THE SALES HALL
Y NEUADD ARWERTHIANT
CWM-Y-GLO
Ffôn: 01286 879060

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a
Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.

Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a
'Seconds' Ffatrioedd am brisiau rhad dros ben.

Ar Agor: LLUN - SADWRN 10.30 - 5 p.m.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

1. Cofnodion Ebrill 2005

Cofnodion cyfarfod nos Iau, Ebrill 21ain, 2005.

2. Presennol/ Ymddiheuriadau

Ward Padarn: Gavin Allsup, Emlyn Baylis, Olwen Gwilym, Derek Jones, Ken Jones (Blaen y Ddôl), Raymond Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp (Cadeirydd), Carys Thomas, Trystan Thomas. Pawb yn bresennol.

3. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau, Mawrth 17eg, 2005, fel rhai cywir.

Cynnig ac eilio: FO/TT

4. Datgan Buddiant

Ymataliodd KJ rhag trafod cais cynllunio CO5A/0191/15/LL, a oedd yn ymwneud â chais cymydog.

5. Aelod Newydd

Croesawyd Raymond Jones, a oedd wedi ei gyfethol yn aelod o'r Cyngor, i'w gyfarfod cyntaf.

6. Materion yn Codi o'r Cofnodion

• *Cae Chwarae 'Landing', Glan Llyn Padarn:*

Hyd yma chafwyd dim cytundeb gyda Chyngor Gwynedd (CG). Adroddwyd fod trafodaethau wedi bod rhwng y Clerc ac un o swyddogion CG a rhwng y Clerc a swyddogion Partneriaeth Busnes Llanberis ac wedyn rhwng y Bartneriaeth, CG a'r Cynghorydd Trevor Edwards; ond hyd yma methwyd â chael cytundeb.

Dywedwyd fod CG yn dal i ddisgwyl i'r Cyngor Cymuned (CC) gymryd cyfrifoldeb am y cae chwarae am rhwng 15 ac 20 mlynedd, ynghyd â'r gost ynghlwm wrth hynny. Er fod addewidion llafar wedi eu gwneud y byddai'r Cyngor Sir yn barod i wneud peth gwaith chafwyd dim yn ysgrifenedig i'r perwyl hynny hyd yma. Cytunwyd fod rhaid i CG ysgafnhau peth o'r baich ariannol neu fe fyddai'r gost Nynyddol o gynnal a chadw ac yswirio'r cae yn faich gormodol ar y CC. Byddai'r gost yn symud o'r C Sir i'r CC ac ar y dreth leol heb ysgafnhau dim at y dreth sirol.

Roedd angen mwy o drafod.

• *Llewyr Treftadaeth:*

Mae'r gwaith o benderfynw ar leoliad a rhynnwys y byrddau dehongli bellach ar y gweill. Roedd Fforwm Padarn wedi cydnabod yn ddioleghgar gyfraniad y CC tuag at y gwaith.

• *Y Fynwent a Chae Chwarae Frondeg:*

Wedi derbyn cyngor penderfynodd y Clerc hysbysebu am rywun i wneud y gwaith. Ystyriwyd y ceisiadau (5) a ddaeth i law a phenderfynwyd rhoi'r cytundeb torri i Wyn Lewis, Caernarfon, ar sail y gwaith rhagorol dros y ddwy flynedd olaf. Cynnig ac eilio: KJ/EB. Adroddwyd bod y fainc a'r giatiau wedi eu paentio.

• *Cofio H. R. Jones*

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Dr Dafydd Roberts Curadur yr Amgueddfa Lechi, yn nodi ei fod o a'i gydweithwyr yn Amguedd-feydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, yn fwy na pharod i dderbyn cynnig y CC i godi coflech i gofio cyfraniad Hugh Richard Jones i sefydlu'r Amgueddfa. Dangosodd y Clerc awgrym o eiriad a allai fod yn addas ar gyfer y llechen, a chafwyd cytundeb ei fod yn cynnig y geiriad i'r Amgueddfa. Gofynnwyd iddo fwrw mlaen â'r trefniadau.

• *Yr Heddlu:*

Adroddwyd na fedrodd yr Heddwes Willdiggy fynychu'r cyfarfod yma, ac felly penderfynwyd gofyn iddo ddod i'r cyfarfod nesaf ymhen y mis.

7. CYNLLUNIO

• CO5A/0191/15/LL. Adeiladu tŷ a newidiadau i'r fynedfa, llain o dir cyfagos i Penlon, Blaen y Ddôl, Llanberis - dim gwrthwynebiad. (Ni chymerodd KJ ran yn y drafodaeth)

8. WEDI EI GANIATÁU

• CO5A/0098/15/LL 'Estyniad'. 29 Maes Padarn, Llanberis. LL55 4TD.

• CO5A/0130/15/AM 'Adeiladu 2 dŷ a newidiadau i'r fynedfa'. Tir tu ôl i Siop Joe Brown, Stryd yr Wyddfa, Llanberis

• NP3/15/11B 'Creu cyfnewidfa i fsys cyhocddus'. Macs Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Nantperis.

• CO4A0835/15/LL 'Arwydd ffasgia wedi ei olcuo'. Y Caban, Stryd Fawr, Llanberis

9. LLWYBRAU

Cafwyd adroddiad fod y llwybr sy'n arwain o Tŷ Newydd i Codd Mawr â rhwystr arno.

10. Y FYNWENT

Adroddwyd fod tyllau wedi ymddangos mewn dau le yn y Fynwent. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu iddynt gael eu llenwi.

11. GEIFR

Daeth ateb oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) yn cydnabod bod geifr yn broblem yn y plwy. Dywedwyd nad oedd tystiolaeth fod mwy o eifr, ond roedd eu patrwm pori yn ymddangos yn wahanol, gan eu bod bellach o gwmpas mewn niferoedd sylweddol trwy'r flwyddyn. Cafwyd ar ddeall fod gwaith ymchwil yn cael ei gynnal, a bod angen trefnu sut i ymdrin â nhw, gan gydnabod eu bod yn achosi difrod i fywyd gwyllt y mynyddoedd ac i'r cynefinoedd coediog yn arbennig, yn ogystal â gerddi'r trigolion. Dywedwyd y gobeithir trefnu cyfarfod buan i drafod y mater, ond nad oedd atebion rhwydd i reoli niferoedd yr anifeiliaid. Cafodd y llythyr groeso.

12. UNRHYW FATER ARALL

• Adroddwyd fod nifer o drwyddedau gwerthiant alcohol yn newid dwylo a chyfeiriwyd yn benodol at Westy'r Victoria.

Roedd teimlad cyffredinol fod gresyn i'r gwesty newid ei enw wedi'r holl flynyddoedd. Gofynnwyd i'r Clerc anfon gair i fynegi siom y Cyngor.

• Copa'r Wyddfa - cafwyd adroddiad ar y sefyllfa ddiweddar. Mae apêl gyhoeddus ar y gweill i godi dwy filiwn o bunnau at yr arian sydd mewn llaw ar gyfer codi adeilad newydd ar y copa.

• Yn sgil y newidiadau yn Maes Parcio'r Parc Cenedlaethol yn Nantperis holwyd a fyddai tâl parcio yma wedi cwblhau'r gwaith?

• Adroddwyd fod baw cŵn a sbwriel yn cynyddu yn y pentref. Ar sail gwybodaeth gan OG penderfynwyd gofyn i un o swyddogion CG ddod i gyfarfod Mehefin i egluro'r newidiadau diweddar yn y ddeddf ar reoli cŵn, a sut y medr y Cyngor a'r cyhoedd gynorthwyo.

Penderfynwyd holi a oes cymorth ar gael i glirio sbwriel, neu a fyddai rhaid i'r CC fynd ati i wneud y gwaith.

• Adroddwyd fod cyflwr y ffordd ger Cae Chwarae Frondeg mewn cyflwr drwg, ac angen ei thrwsio.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:


**IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8. Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliament.uk**

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor nos Fawrth, 12ed o Ebrill, yng Nghanolfan Penisa'rwaun.

Offrymwyd y weddi ddechreuol a chroesawyd Mr Dafydd Einion Jones, Swyddog Datblygu Cyngor Gwynedd. Dywedodd Mr Jones ei fod wedi holi ynglŷn â ffynonellau ariannu yn dilyn ei drafodaeth gyda'r Grŵp Cymunedol ar fwriad y Cyngor i gyhoeddi llyfryn hanes mewn cysylltiad â llwybrau'r ardal. Atgoffodd Phyllis Ellis Mr Jones gan fod yr ardal mor eang y buasai'n rhaid cyflogi person i wneud y gwaith, ac mai dyna oedd yr anhawster wedi bod yn y gorffennol. Atebodd Mr Jones ei fod wedi holi ynglŷn â hyn ac y gellir cyflogi cydlynnydd. Awgrymodd Mr Jones mai'r lle i ddechrau fuasai trafodaeth gyda Swyddogion Gwynedd, sydd yn awyddus i fod yn rhan o'r prosiect.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ei ymchwil trylwyr ac am yr holl wybodaeth i'r Cyngor.

Datgan Buddiant

R. Len Jones a Huw P. Hughes ar faterion cynllunio.

Cofnodion cyfarfod 1 Mawrth

Dymuna Len Jones newid y cyfeiriad at waith PC Willdigg yn Llanberis i 'mae Lanberis yn gwella' yn hytrach na 'bod Llanberis bellach yn iawn'. Ychwanegodd bod yr Heddwas yma yn gwneud gwaith arbennig o dda.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Materion o'r Cofnodion

Llifogydd Brynrefail

Derbyniwyd ateb Gwynedd yn dweud nad yw'r ychydig dyfiant ger Pont Penllyn yn ddigon i rwystro llif yr afon.

Penderfynwyd atgoffa Asiantaeth yr Amgylchedd nad atebwyd ein llythyr (09/02/05)

Post Clwt y Bont

Derbyniwyd ateb Adran Cynllunio Gwynedd ynglŷn â'r siediau dros y ffordd i Dŷ Capel Libanus yn egluro nad oedd angen caniatâd cynllunio i'w gosod. Pryder y Cyngor oedd yr uned yn syth o flaen yr uchod - gofyn eto am ei symud.

Cyfrifoldeb dros waliau cynnal
Derbyniwyd rheolau Adran Priffyrdd Gwynedd yn gwahaniaethu rhwng cyfrifoldeb y Cyngor a chyfrifoldeb y tiffeddianwyr.

Trafodwyd hyn gan feddwl cfallai y gellid dilyn y prosiect llwybrau a chynllun walio fel a wnodd ar 'Cynllun Peris' a 'Tir Cymen' ym Meirionnydd.

Gofynnodd Hefin Williams a oes modd i'r Sir gael grant atgywceirio ar ran y tiffeddianwyr. Dywedodd Huw P. Hughes bod gorfodaeth ar y tiffeddianwyr lle bo perygl.

Amlygwyd bod amryw o waliau yn flêr ac angen eu hatgyweirio. Awgrymodd Len Jones ofyn i Wardeiniaid Cymunedol Gwynedd am eu barn.

Pont Felin, Clwt y Bont

Cadarnhad Gwynedd y byddant yn ailosod y llinellau gwyn ar ochr y ffordd.

Gohebiaethau / Materion Eraill

Capel Maes y Dre

Derbyniwyd y cais canlynol trwy law'r Cadeirydd oddi wrth ddatblygwr y safle. Mae cofeb Mr William Roberts a laddwyd yn Ffrainc ym 1916 yn dal yn yr adeilad, buasai'n falch pe bai'r Cyngor yn trefnu ei hail-leoli. Penderfynwyd ei gosod, gyda'r cofebion a ddaeth o Gapel Disgwylfa, wrth ochr y wal ym mynwent Macpela. Cysylltu â Mr Peter Evans, Adran Bwrdeistrefol Gwynedd am ganiatâd a chymorth.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Derbyniwyd cais am gefnogaeth ariannol oddi wrth Adran yr Urdd, Bethel. Bydd tua 30 o blant yr adran yn cystadlu yng Nghaerdydd - Parti Deulais a Manon ar y dydd Mawth a'r Parti Llefaru a'r Côr ar y dydd Gwener. Penderfynwyd cyfrannu £50 at eu costau gan ddymuno'n dda iddynt.

Daeth cais tebyg hefyd o Ysgol Brynrefail - Band Prês, dau Grŵp Dawnsio Gwerin, Ensemble ynghyd â nifer o unigolion. Penderfynwyd cyfrannu £50 at eu costau gan ddymuno'n dda iddynt hwythau hefyd.

Un Llais i Gymru

Penderfynwyd talu aelodaeth blwyddyn, er ei fod yn £435.

Parc Cenedlaethol Eryri

Cyfarfod yn Nhrawsfynydd ar 17eg ac yn Nhrefriw ar y 24ain o Fai. Hysbysu Philip Jones.

Lôn Cerrig y Nyth, Dinorwig

Gwaharddiad trafndiaeth dros dro.

Un Llais i Gymru

Bu cyfarfod yng Nghaernarfon ar y 6ed o Ebrill, ychydig iawn o rybydd a gafwyd.

Sefydliad Materion

CYMREIG

Llythyr uniaith Saesneg ynglŷn â dyfodol tai cymdeithasol. Anfonwyd atynt yn gofyn am eu hadroddiad Cymraeg.

Y Comisiwn Archwilio yng NGHMYMRU

Llythyr uniaith Saesneg eto yn sôn am newidiadau mewnol. Gofynnir iddynt hwythau hefyd am lythyr yn yr Iaith Swyddogol.

Cyfarfodydd rhwng Gwynedd a Chynghorau Cymuned

Derbyniwyd canlyniad yr holiadur ynglŷn â threfn newydd y cyfarfodydd.

Lôn Penbont a Lôn Tai Castell, Deiniolen

Dywedodd Dafydd Morris nad yw'r gwlliau na'r draenau wedi eu clirio - atgoffa Gwynedd.

Afon Goch, Deiniolen

Gofynnodd y Cadeirydd a oes gwybodaeth bellach ynglŷn â'r gweithgareddau sy'n digwydd yno. Ni all Awdurdod Cynllunio Gwynedd wneud dim tra nad oes mwy na chwe pherson yn byw yno fel teulu.

Hysbysfwrdd ger y Neuadd, Rhiwlas

Dywedodd Hefin Williams ei bod yn anodd cyflwyno cyhoeddiadau i'r cyhoedd gan nad yw'r Post ond ar agor am rhyw ddwyawr y dydd, a gofynnodd a fuasai'r Cyngor yn talu am osod hysbysfwrdd. Eglurwyd mai cyfraniad a roddodd y Cyngor at hysbysfwrdd a archebwyd gan Bwyllgor Neuadd Penisarwaun. Ystyrir hyn pan fydd prisiau ar gael.

Cysgodfan Bws, Rhydfadog

Dywedodd Dafydd Morris bod angen tynnu peneli peryglus oddi arni.

Cysgodfan Bws, Penisa'rwaun

Cyfeiriodd Phyllis Ellis at yr un diffyg yno hefyd.

Penderfynwyd gofyn i Mri G. L. Jones eu gwneud yn ddiogel.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Addasu adeilad allanol yn annedd: Ysgubor, Penisa'rwaun. Addasu Tŷ: O'r Hen Fecws, Deiniolen.

Estyniad: Ynys Llech Arian, Llanddeiniolen.

Estyniad: 12 Stâd Eryri, Bethel.

Estyniad: 85 Cae Glas, Rhiwlas.

Ymestyn y cwrtil: Waen Rhythallt, Llanrug.

Estyniad: 24 Bryn Tirion, Penisa'rwaun.

Estyniad: 1 Tai Newyddion, Penisa'rwaun.

Caniatawyd gan Wynedd:

Datblygiad Preswyl: Cae Penffridd, Deiniolen.

Estyniad: 2 Trem Eilian, Brynrefail.

Ail osod grisiau concrid a newidiadau mewnol:

Amgueddfa Lechi, Parc Padarn.

Estyniad: Bryn Hywel, Penisarwaun.

Mynedfa Newydd: Pwll deifio Vivian, Parc Padarn.

Newid defnydd llawr isaf: Hen Siop Liptons, Deiniolen.

Gwrthodwyd:

Datblygiad Preswyl: Tir Rhiwgoch, Clwt y Bont.

Cyflwynwyd pryder Elspeth Mitcheson am ddiogelwch y fynedfa i Felin Uchaf, Pentir, pan fydd mwy o dramwyo i mewn ac allan.

Llwybrau

Dywedodd Phyllis Ellis ei bod wedi derbyn cwyn ei bod yn anodd cerdded at Craig yr Undeb oherwydd cyflwr y llwybr. Dywedwyd bod y llwybr at y gofeb yn iawn. Addawodd y clerc wneud ymholiadau.

Cyfeiriodd Len Jones at y cwynion blaenorol ynglŷn â llwybr Hen Lôn, Clwt y Bont a'r llwybr ger Bryn Tirion, Deiniolen ac nad oedd ateb o Wynedd - llythyr eto.

Adroddiadau

Llifogydd Bethel

Adroddodd Huw P. Hughes ei fod wedi cyfarfod â Swyddogion Gwynedd ynglŷn â hyn a'u bod yn edrych i mewn i broblemau'r holl ffosydd. Mae Dŵr Cymru hefyd yn gwneud eu harolwg a bydd adroddiad o'r ddau awdurdod ymhen dau fis.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf yw 3ydd o Fai.



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**Gwasanaeth
Gwallt
Symudol
Gwen**



*Gostyngiad i'r
henoed*

Ffôn:

07919977592

**TAFARN
BRYNGWNA
Caeathro**

Croeso mawr i bawb i'r
'Bryngwna'

yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentrref, yng nghwmni Garth a Steffan Bowen.

*Cinio dydd Sul
a byrbrydau ar gael*

Ffoniwch (01286) 674568
i gadw bwrdd neu archebu
ymlaen llaw

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto



Sut? Beth? Faint?

Asgwrn, Ond Nid Un i'w Grafu

Ar leindir, tra'n cymhennu a chribino drwy'r cerrig, gan godi mymryn o lwch, dyma daro ar ddernyn o asgwrn wedi ei gladdu o'r golwg yn y briddell. Dechra' dyfalu? Beth ydy' o? Sut dda'th o yno? Faint ydy' ei oedran? A'r holl gwestiynnu'n troi'n storom o gwestiynnu yn fy meddwl ac, er mwyn tawelu popath, dyma benderfynu mynd ati i chwilio am gymorth arbennig.

Yr asgwrn dan sylw? Fe'i paciwyd yn ofalus. Paratowyd llythyr cryno yn y Gymraeg. Yn hwnnw cyfeiriwyd at y man ble y canfyddwyd y gwrthrych, a gofynnwyd a oedd modd gw'bod ei oedran drwy neud defnydd o brawf radio-carbon. Holwyd hefyd sut, beth, a faint! Ie! Yna, fe'i danfonwyd, ynghyd ag amlen hunan-gyfeiriedig, i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Annwyl Dafydd Guto Ifan, Diolch yn fawr iawn i chi am eich ymholiad am yr asgwrn y daethoch o hyd iddo ar lethr ger Neuadd Glasgoed. Rydw i wedi edrych arno'n ofalus, a gallaf ddweud mai gwaelod crimog dafad yw e. Ni allaf fod yn sicr am oedran yr asgwrn. Mae'r wyneb wedi treulio rhyw ychydig, gan awgrymu ei fod ar wyneb y ddaear am beth amser cyn mynd i'r pridd. Am i chi ddarganfod yr asgwrn gyda darnau o grochenwaith, mae'n debyg eu bod yn dyddio o'r un cyfnod - rydych chi'n dweud mai tsenia ydan nhw, felly

mae'n debyg eu bod nhw'n dyddio o'r 18fed ganrif neu'r 19eg ganrif.

Er mwyn gwneud gwaith dyddio radiocarbon, mae angen tynnu sampl ohono i'w ddadansoddi'n isotopaidd - fel rheol rhwng 500mg... Nid oes modd i ni wneud y gwaith hwn yn yr Amgueddfa ac y mae'r labordy agosaf ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r gwaith yn costio rhwng £350 a £400 fel rheol ac ni fyddwn yn argymhell eich bod chi'n gwario arian ar ddyddio'r darn arbennig hwn... Os dowch o hyd i unrhyw eitemau pellach, mae diddordeb mawr gennym ni eu gweld nhw ac amgaeaf daflen am y Cynllun Cludadwy sy'n gweithredu ledled Cymru. Yn y cyfamser, rwy'n dychwelyd yr asgwrn i chi.

Yn gywir,

Elizabeth A. Walker,
Curadur Archaeoleg
Palaeolithig a Mesolithig,
Amgueddfa Genedlaethol Cymru,
Caerdydd.

Diolchiadau lu iddi. Petawn i - petawn i wedi dangos yr asgwrn ac wedi holi Wavell Roberts, y Cigydd yn Llanrug, mi fyddai ef wedi d'eud ar ei union wrtha' i mai asgwrn gwaelod coes gefn dafad a ganfyddwyd yn Neuadd Glasgoed!

Y mis nesaf byddaf yn mynd ati, a hyn i gyd heb gymorth fforch a chribyn, i brofi sut y gellir d'eud oedran aderyn, ond nid drwy daro ar weddillion ei csgyrn! A'r mis dilynol byddaf hefo chi'n yr ardd - hefo'r malwod ieuainc a hen!

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

Dylan Griffith

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-VWAEN, PENISARWAUN**

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffôn: Dylan (Llys) ar 871833

Gymudoli 07778 127394

HEFYD

CERBYDau CLASUROL YR WYDDFA

Gyrhaeddwyd mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffôn: Lloyd ar
01286 830 805



am help:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



**MANTELL
GWYNEDD**
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Gysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

O SIAMBAR SELWYN

Diddorol ydi troi at Restr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch, 1979, a sylwi ar enwau y sawl a fu'n weithgar ar y gwahanol bwyllgorau. Nifer fawr ohonynt efo cysylltiad â Bro'r Eco.

Ymysg Cadeiryddion y gwahanol bwyllgorau, gwelir enwau'r canlynol: *Pwyllgor Llety a Chroeso*: Miss Phyllis M. Ellis, ac mae Phyllis yn dal i fod yr un mor weithgar ynglŷn ag Eisteddfod 2005, ar Bwyllgor y Dysgwyr.

Cadeirydd y *Pwyllgor Drama* oedd y diweddar W. Vaughan Jones, Y Waunfawr. Bu farw Mr Jones ychydig cyn yr Eisteddfod.

Y diweddar Eluned Ellis-Jones oedd Cadeirydd y *Pwyllgor Cerdd Dant*, ac fe gofiwn am ei gwasanaeth arbennig i'r byd hwnnw, a hefyd am ei gwasanaeth diflino fel Trefnydd Iaith Gwynedd. Roedd hi'n aelod ffyddlon gyda ni ym Methel, lle bu ei phriod, y diweddar barchedig Charles Jones, yn weinidog arnom. Bu Mrs Jones yn athrawes arna i yn Ysgol Syr Hugh Owen flynyddoedd maith yn ôl hefyd. Tydi'r blynyddoedd yn ffluo!

Golygydd y *Bwrdd Golygyddol* oedd y diweddar John Roberts Williams. Rwy'n berffaith siŵr y byddai o yn ymfalchïo o weld gwireddu ei freuddwyd ein bod, o'r diwedd, wedi symud ymlaen i sicrhau meini gorsedd symudol ar gyfer y Seremonïau Gorseddol. Cynhelir hwy o hyn allan ar faes yr Eisteddfod ar foreau Llun a

Gwener a mawr hyderwn y cawn dywydd ffafriol i'w defnyddio am y tro cyntaf ar y bore Llun ar Barc y Faenol.

Is-Gadeirydd *Pwyllgor yr Orsedd* oedd Glenys Williams, Deiniolen, ar y pryd. Mae Glenys hefyd yn aelod ffyddlon o Bwyllgor yr Orsedd yn Eryri eleni, ac yn ffyddlon iawn i'r Seremonïau yn flynyddol.

Evan Parry, Ceunant, oedd Is-Gadeirydd y *Pwyllgor Celf a Chrefft*, a'r Dr Dan Hughes, Llanberis, oedd Is-Gadeirydd y *Pwyllgor Ambiwylans* gydag Islwyn Jones yn Is-Gadeirydd y *Pwyllgor Gwyddoniaeth*.

Geraint Elis, Bethel, oedd Ysgrifennydd y *Pwyllgor Pafiliwn a Maes* a Iolo Llewelyn, Llanrug, yn Ysgrifennydd y *Pwyllgor Cyllid*. Roedd John Roberts, Llanrug, yn Ysgrifennydd y *Pwyllgor Hysbysrwydd* ac Ann Hopcyn, a oedd yn byw ar y pryd yn Gorffwysfa, Bethel, (hen gartref W. J. Gruffydd) yn Ysgrifennydd y *Pwyllgor Alawon Gwerin*.

Fe welwch bod 'na nifer dda a chysylltiad ganddynt â Bro'r Eco, yn weithgar iawn ynglŷn â Phrifwyl 1979. Ymddiheuraf os y gadewais unrhyw un allan. Rwy'n falch hefyd bod 'na gymaint o Fro'r Eco yr un mor weithgar gyda'r Wyl sydd ar fin dod i Barc y Faenol.

Bydd llun o Bwyllgor Gwaith 1979 yn *Rhaglen y Dydd* eleni, ond mae nifer ohonynt, yn anffodus, wedi'n gadael. Rhai fel

I. B. Griffith, y Cadeirydd; Aled Roberts, Y Felinheli; John Roberts Williams; Eluned Ellis-Jones ac amryw eraill. Rwy'n siŵr y bydden nhw wrth eu bodd cael bod yn y Faenol eleni. Ond mae gen i ddigon o ffydd i gredu y byddan nhw yno.

O byddan, yn ogystal â miloedd o'r hen chwarelwyr a fu'n naddu eu bara beunyddiol o grombil yr Elidir am gardod o gyflog, gan chwyddo cyfoeth gŵr y Faenol. Byddan, mi fyddan nhw yno.

* * *

Ni chafwyd teilyngdod yn y gystadleuaeth am y Gadair yn 1979, a hynny am yr ail flyyddyn yn olynol gan mai Cadair wag a gafwyd yng Nghaerdydd yn 1978 hefyd.

Bu tipyn o ddrama ynglŷn â'r Goron hefyd. Pan agorwyd yr amlen gyfrinachol, canfyddwyd mai gwaith ar y cyd oedd y cerddi buddugol a gyflwynwyd o dan y ffugenw 'Iauws'. T. James Jones (Jim Parc Nest) a'i gyfaill, oedd yr awduron. Gan iddynt dorri un o'r rheolau fe benderfynwyd coroni yr ail orau, sef y Cyn Archdderwydd Meirion Evans, Porth Tywyn.

Enillydd arall efo cysylltiad â Bro'r Eco oedd R. E. Jones, Llanrwst - Prifathro Ysgol Dolbadarn, Llanberis - a fu'n fuddugol ar yr Englyn.

Braslun o Hanes Chwarel Dinorwig. Gwelir enwau dau o'r fro. Y Prif Lenor Emyr Jones, Waunfawr a Lowri Prys Roberts, Brynrefail. Enillodd y Parch Arthur Wynne Edwards, Tregaron, ar y Stori Fer. Bu Mr

Edwards yn weinidog yn y Cysegr, Bethel, am gyfnod ac mae o'n un o'r cyfeillion a welaf yn aml yn y Brifwyl ac yn Eisteddfodau mawr Ceredigion.

Y diweddar Rhodri Prys Jones, Waunfawr, yn ennill ar 'Stori bywyd unrhyw gymeriad diddorol'. Fedrai Rhodri ddim methu wrth ddewis Bill Parry, y morwr anturus a hwyliodd o Gaernarfon a'i fryd ar gyrraedd Awstralia, ond cyn diwedd 'day one' roedd ei freuddwyd yn froc ar Draeth y Belan.

* * *

A Phrifwyl Parc y Faenol yn prysur ddod yn nes - diddorol yw sylwi i Syr Michael Duff gyfrannu £25 tuag at Eisteddfod Genedlaethol 1979. Ys gwn i be fyddai ei deimladau o heddiw o weld bod 'na fwllch yn wal y Faenol ac y bydd gwerin gwlad yn llifo drwyddo i gynnal Gŵyl gwbl Gymraeg ar lawnt ei blas! Synnwn i ddim na fyddai o yn eitha balch rhywsut.

Mae tir y Faenol yn hen gyfarwydd â chroesawu 'National Winners' a dathlu eu buddugoliaeth: Jerry M, 1912; Cover Coat, 1913; a Sunlock, 1914. Hatric o lwyddiant yn 'Steddfod y Ceffylau.

* * *

Mi fydd 'na 'National Winners' ar lawnt y plas mis Awst nesa' hefyd. Cannoedd ohonyn nhw - yn unigolion, plant, pobl ifanc, aelodau o bartion a chorau. Bydd, mi fydd tir y lord yn orlawn o enillwyr. Bydd mi fydd 'na ddathlu, ond fydd 'na'r un ceffyl yn hawlio rhuban glas!

Cefnogwch Blaid Cymru yn yr Etholiad Cyffredinol Mai 5ed 2005

Cyhoeddwyd gan Liz Saville, 8 Stryd y Castell, Caernarfon
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Caernarfon

Hywel Williams

X

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384



Pen-blwydd Hapus iawn i Mrs Annie Jones, Eillionwy, Llanrug yn gant oed. Trefnodd ei merched barti mawr yn y Bedol ddydd Sadwrn, 23 Ebrill, a daeth tua chant o gyfeillion, cymdogion a theulu ynghyd i ddathlu'r achlysur hapus.

DYMUNA Menna Jones, Pant Mwyn, ddiolch o galon i bawb am ei nodd i redeg ym Marathon Llundain. Fe gasglwyd £2,345 i elusen ELF (Elimination of Leukaemia Fund).

YR YSGOL GYNRADD

Bu Miss Manon Davies o Goleg Prifysgol Bangor yma gyda ni am bythefnos yn arsylwi ar weithgareddau'r Dosbarth Derbyn. Gobeithiwn bod y cynnod wedi bod o fudd iddi yn ei gwaith cwrs, a'i bod wedi mwynhau bod yn ein cwmni.

YR URDD. Dymunwn yn dda i dîm pêl-droed y bechgyn sydd yn cystadlu yn Nhwrnament Pêl-droed dan 12 oed, Rhanbarth Eryri ar gae Treborth ddydd Mercher, 20 Ebrill.

Dydd Sadwrn, 7 Mai, bydd tîm pêl-droed y genethod yn cystadlu yn y Twrnament Cenedlaethol yn Aberystwyth. Pob hwyl ichi yno, genod.

Nos Iau, 27 Ebrill, bydd cystadleuthau rhedeg trawsgwlad yn cael eu cynnal yn y Faenol a bydd nifer o aelodau Urdd yr ysgol yn cystadlu yno. Dymunwn yn dda i chi i gyd a mwynhewch eich hunain.

DERBYN ATEB. Yn ystod eu thema 'Y Môr' yr haf diwethaf aeth disgyblion Blwyddyn Derbyn ar ymweliad â Phenmon, Ynys Môn, ble y lluchiwyd potel gyda chyfeiriad yr ysgol a neges ynddi, i'r môr.

Yn ystod mis Ionawr eleni derbyniodd y dosbarth lythyr gan ŵr o Southport yn dweud iddo ganfod y botel ar y traeth yno ar 14 Ionawr.

Roedd y plant, sydd yn Blwyddyn Un erbyn hyn, wedi rhyfeddu bod y botel wedi cael ei chario mor bell gan y môr.

Y SEFYDLIAD COFFA. Enillwyd Clwb Cant mis Ebrill oedd: £20: Mrs M. Griffiths, 2 Hafan Elan; £7: Mrs M. Roberts 7 Afon Rhos; £5: Miss E. Roberts 7 Afon Rhos.

MARWOLAETH. Bu farw un o anwyliad y pentref yn ystod y mis, John Pierce Jones, neu 'Pys' i bawb. Roedd yn rhan bwysig o'r pentref, yn adnabyddus i ni i gyd ac yn ffrind i bawb, a chanddo diddordeb yn y gweithgareddau agos at ei galon.

Bydd colled enfawr i'w wraig, Cath, ei fab, Kevin ag Elaine, y wyrion, Gavin a Wayne, a'r teulu a'r holl gymdogion a ffrindiau.

HEFYD, ar ôl cynnod o waeledd, bu farw Mrs Geridwen Williams, 25 Hafan Elan (Dinorwiggynt). Mam anhwyl Marion ag Eilir a Nain a hen nain hoffus. Roedd Mrs Williams

hefyd yn gymydog da ac yn ffrind i lawer. Ymddiddorai yng Nghroesair yr Eco ac yn y 'Pethe'. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r ddau deulu yn eu profedigaeth lem.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llongyfarchiadau mawr a phen-blwydd hapus iawn i Dennis, Ysgol Dreifio Llanrug, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 50 oed. Pob hwyl ar y dathlu.

COFIO'R CAWR FFRAETH. Colodd Llanrug gymeriad unigryw yn ystod y mis a aeth heibio pan fu farw John Pierce Jones yn ddisymwth wedi gwaeledd byr. Ond fel Pys y câi ei adnabod gan bawb. Fe'i magwyd yn Llanrug, ac ar wahân i gyfnod y rhyfel, yn Llanrug yr arhosodd gydol ei oes. Bu'n gefnogwr triw i achosion ei bentref.

Roedd yn aelod dawnus o dîm pêl-droed Llanrug yn ystod ei gyfnod llwyddiannus wedi'r Ail Ryfel Byd, a phan ailsefydlwyd y Clwb ar ddiwedd y 1960'au, roedd Pys yno, yn aelod o'r pwyllgor ac yn gefnogwr brwd a selog o'r holl dimau. Parhaodd ei ymlyniad a'i gefnogaeth i'r clwb pêl-droed hyd y diwedd. Nodwedd arbennig o'i gefnogaeth oedd ei lais treiddgar a'i ddywediadau ffraeth, a byddai ton o chwerthin yn llifo o amgylch y cae yn dilyn sylw Pys ar rhyw ddigwyddiad yn y gêm. Roedd y dyfarnwyr hefyd bob amser yn ymwybodol o'i ffraethineb; yn enwedig os byddai eu penderfyniad wedi cosbi tîm Llanrug! Ond hiwmor difalais oedd yn perthyn iddo, a doedd hyd yn oed aelodau a chefnogwyr tîm Llanberis ddim yn dal dig, er gwaethaf y tynnu coes a'r pryfocio pan fyddai'r ddau elyn yn wynebu ei gilydd.

Y ffraethineb hwn oedd yn nodweddiadol ohono hefyd yn ystod carnifalau'r pentref; mudiad arall y bu'n gefnogwr brwd a gweithgar drosto. Bu'n aelod gweithgar o'r pwyllgor a fu'n cynnal y carnifal am flynyddoedd, a hynny er mwyn codi digon o arian i gynnig cinio a pharti i henoed yr ardal yn ystod y Nadolig. Yno hefyd, roedd yn ei elfen yn diddori'r gynulleidfa.

A phan fyddai'n dioddef rhyw anhwylder neu'i gilydd, ac yn gorfod ymweld â'r meddyg, byddai llond ystafell ar ôl a glafion yn chwathu yn braf tra'n disgwyl eu twrn. Trueni na fyddai wedi bod yn bosibl potelu ffraethineb Pys a'i rannu drwy holl syrieris y wlad.

Colodd Llanrug bersonoliaeth a

hiwmor y cawr addfwyn, ond bu'r golled ar yr aelwyd yn fwy. Estynnwn ein cydymdeimlad â Cath, Kevin a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod y gangen ar nos Fawrth, 12 Ebrill, yn y Ganolfan Gymunedol. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Eryl, y Llywydd. Derbyniwyd cerdyn gan Llinos, merch Julie, yn diolch am y nawdd a dderbyniodd gan aelodau'r gangen. Cynhelir noson Gelf a Chrefft ar nos Wener, 2 Mai, yn Neuadd Bethel. Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol a'r Wyl Haf ar 21 Mai yng nghanolfan y Tabernacl, Machynlleth.

Y gŵr gwadd oedd Arwel Jones, Penisarwaun, neu fel yr adnabyddir ef yn aml, Arwel Hogia'r Wyddfa, a'i destun oedd y teithio tu ôl i'r gân. Adroddodd fel yr oedd gan ei dad fusnes bysus ym Minffordd, Llanrug, ac yna aeth ymlaen i roi ei hanes ei hun yn teithio'r byd.

Bu ar ei daith gyntaf i America pan oedd yn 8 oed, ac yna fel aelod

o Hogia'r Wyddfa bu'n teithio Michigan, ardal y Grand Canyon, Las Vegas a hefyd Canada. Bu hefyd ar daith i Awstralia a Nigeria.

Roedd hanes pob taith yn gyfuriog o ddigwyddiadau digri a chyffrous, troeon trwstan, cyfarfod â phobl ddiddorol, ac ar ochr arall y geiniog cafwyd ambell nodyn trist. Roedd Arwel yn ei elfen a phawb wedi mwynhau'r noson yn fawr.

Paratowyd y baned gan Ann Ifans, Myfanwy, Phyllis a Jean ac enillwyd y raffl gan Meryl.

Cynhelir y cyfarfod nesaf, sef y Cyfarfod Blynnyddol, ar 10 Mai. Disgwylir i'r aelodau ymgynnull yng ngerddi Menter Fachwen, Cwm-y-glo am 7.00 o'r gloch ac yna bydd y cyfarfod yng Nghaban y Fenter.

LLONGYFARCHIADAU i Mary a Meurig Parry, Gwêl Fynydd ar ddo yn nain a thaid am y chweched tro. Ganwyd merch fach, Alana, i Gareth a Parvez, a chwaer fach i Llywelyn. Maent yn byw ym Mhorthsmouth. Pob dendith i chwi fel teulu.

CYNGERDD Lleisiau Llanrug YN YSGOL

BRYNREFAIL

NOS FERCHER **MAI 11**

7 O'R GLOCH

**RYGARUG PLANT YSGOL BRYNREFAIL
CLYCHAU'R GRUG CÔR ERYRI
ELW AT EGLWYS SANT MIHANGEL LLANRUG**

EGLWYS Sant Mihangel St. Michael's CHURCH
Ysgol Sul Sunday School



"Pysgod Bach"

"Little Fishes"



COMMENCING: YN DECHRAU
Dydd Sul Ebrill 10th April 10th
Contact: Andrea neu Beryl

9.30am - 10.30am

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD
Y GYMDEITHAS. Cafwyd
cychwyn rhagorol i'r Gymdeithas
nos lau Ebrill 14eg yn yr Ystafell
Gynhadledd yng Nghanolfan
Dylunio a Menter Eryri. Y siaradwr
gwadd oedd y Parch Harri Parri,
Caernarfon, a threuliodd noson o
fwynhad pur yn ei gwmni yn
adrodd am ei hynafiaid - rhai o
gymeriadau unigryw gwlad Llŷn o
dan y teitl 'Fe'm ganwyd innau yn
fab i'm rhieni...'

Mr Emyr Williams a dalodd air o
werthfawrogiad am noson
arbennig. Pat Jones a Carol
Houston oedd yn gweini'r lluniaeth
a drefnwyd gan y Ganolfan. Hwn
oedd y tro cyntaf i gymdeithas o
aelodau'r Eglwys ddefnyddio'r
adnoddau arbennig a gynigir yn yr
adeilad moethus hwn a chytunwyd
ar y terfyn i gynnal y gweddill o
gyfarfodydd y tymor ar y safle.
PLEIDLAIS Yn dilyn hysbysu'r oll
o'r aelodau drwy ohebiaeth yn
ddiweddar cynhaliwyd cyfarfod
nos Sul, Mawrth 3ydd, i drafod yr
oblygiadau o symud i addoli i'r
Ystafell Gynhadledd yng
Nghanolfan Dylunio a Menter
Eryri. Cynhaliwyd pleidlais yn dilyn
yr oedfa nos Sul, Ebrill 17eg, a
chytunwyd yn unfrydol i symud
ymlaen â'r bwriad. O ganlyniad,
hyderwn y bydd oedfeun y Sul
cyn diwedd y flwyddyn yn cael eu
cynnal yn y Ganolfan.

CASGLIADAU. Yn ystod y mis
anfonwyd cyfraniad o £40, sef y
casgliad a wnaed yng Nghyfarfod
Gweddi Byd Eang y Chwirydd, i

Drysorydd y Mudiad.
(Ymddiheurwn am na
chynhwyswyd enw Mrs Eirianwen
Evans, 1 Ffrwd Madog, a gymrodd
ran yn y cyfarfod ar Fawrth 4ydd,
yn yr adroddiad yn yr Eco y mis
diwethaf). Casglwyd hefyd y swm
o £75.50 tuag at waith y
Genhadaeth ar gyfer Sasiwn
Chwirydd y Gogledd o Eglwys
Bresbyteraidd Cymru a gynhelir
eleni ar Fai 4ydd yn Seion,
Llanrwst.

OEDFEUON MAI

- 1: CYMANFA DOSBARTH
PADARN yn Nghapel
Rehoboth, Nant Peris am
2.00 a 6.00. Arweinydd:
Mr Edward Morus Jones,
Llandegfan.
- 8: Mr John H. Hughes,
Llanberis am 5.30;
- 15: Parch Dafydd Hughes,
Caernarfon am 5.30;
- 22: Parch Gareth Maelor,
Llanwnda am 5.30;
Gweinyddir y Cymun
- 29: Mr Alun Rowlands, Bangor
am 10.00.

PLYGU'R ECO

Daeth ein tro fel pentrefwyr i
blygu'r Eco unwaith eto. Yn ystod
y pedair mlynedd ddiwethaf bu'r
gwaith yn cael ei wneud yn Ysgol
Gymuned Cwmyglo. Eleni da yw
cyhoeddi y byddwn yn dychwelyd
i'n cynefin. Bydd y plygu yn mynd
ymlaen yng Nghanolfan Dylunio a
Menter Eryri nos lau, Mai 26ain.
Gobeithio bydd llu ohonoch yn troi
i mewn yn y lleoliad newydd i
gynorthwyo gyda'r gwaith.

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444




- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch
cadw'n gynnes ac yn glyd!

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218



Ar y safle hon yr oedd
Ysgol Sir Brynrefail 1900 - 1956
Ysgol a godwyd drwy
ymdrechion difflino a dyheadau cadarn
brodorion y pentrefi cyfagos
i roi Addysg Uwchradd i'w plant
Hunanaberth y rhain, ni fu'n ofer. ROY



Maen i'n hatgoffa o'r safle lle bu am gan mlynedd adeilad yr Hon
Ysgol Sir sydd yn awr yn gartref i Ganolfan Dylunio a Menter Eryri.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



websitc: www.a-y-w.co.uk




Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed i'ch
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559

CROESAIR MEDI



Mae'r pedair tref a ddefnyddir fel cliwiau yn y croesair yn cyfeirio at leoliad yn 41 ar draws yn wŷr sydd â'u henwau yn ateb i'r cliwiau.

Ar draws:

1. a 3. Bala (5 a 4)
5. Mae'r talentog yn rhoi pedol mewn dawn! (6)
10. Mae rhai 2 i lawr yn holl bwysig i'r gwŷr sydd dan sylw. (3)
11. Y prif le i gyfarfod i lanc, a fo yn feddw! (7)
12. Y cnaf sy'n byw mewn castell ger Llyn Cwellyn? (5)
13. Blasau neu arogl. (5)
14. Gŵr llên dibwys yn mwydro am oren yn difetha yn y llyn! (7)
15. Offeryn miniog y saer. (3)
16. Ai coelcerth ddirfrycheuldyd sy'n gyfrifol am y cyflwr o brofi a dioddef? (6)
17. Tafarn. (5)
19. Un wedi ei chreu ydi Esperanto. (4)
22. Berwi'n araf. (4)
24. Cyflenwadau wrth gefn dau anodd? (7)
25. Yn drist ac yn anodd ei godi! (4)
27. Llinyn o gotwm mewn toiledau crand! (4)
28. Heb fod yn agos i (5)
30. hadau persawrus, carddwy! (6)
33. Wedi byw yn hir ... (3)
34. i geisio dangos fod ei ddamcaniaeth yn wir? (7)
37. Trythull (5)
39. Gwatwar wrth ddechrau waldio ffrind tra'n isel ofnadwy! (5)
41. Gweler y cyflwyniad. (7)
42. Yr esgyrn sy'n amgylchynu'r frest. (3)
43. Rwber tenau sy'n ymestyn wrth ei dynnu. (6)
44. Aderyn coch golau? (4)
45. Nid ei droed fydd Santa'n ei roi ynddi noswyl y Nadolig! (5)


I lawr:

1. Bwa lliwgar. (5)
2. Mae llwyddiant y gwŷr sydd dan sylw yn dibynnu ar y rhain. (7)
3. Rhes yn dymuno iechyd gwell i Neil Gwyn! (5)
4. Siroli. (7)
6. Bwriadu canu am escentrig (6)
7. neu ddarganfod pwrpas mewn pennod o'i lyfr? (3)
8. a 20. Abernaron. (5 a 5)
9. Bendigeidfran o ddyn! (4)
11. Gwlad sy'n uchel a serth. (6)
15. Y rhan calcraf o'r gwrolydd? (5)

16. Gweler 21.
 18. Cwmpas y llais neu offeryn cerdd. (4)
 21. a 16. Llandeilo. (4 a 5)
 23. Gwlad fwyaf gorynys Iberia ... (5)
 26. a rhan o wlad yn dechrau talu am letyau addas i'w theuluoedd. (6)
 29. Rheolaeth adnoddau gwlad neu fusnes. (7)
 31. Gweler 33.
 32. Crynhoi o gwmpas y craidd. (6)
 33. a 31. Caernarfon. (5 a 7)
 35. Tyfiant allanol ar y corf (4)
 36. heb fod yn hen! (5)
 38. Deuddeg. (5)
 40. Y gwres sy'n codi yn y brotest. (3)
- Derbyniais atebion i groesair mis Mawrth gan Olwen Jones, Bethel; Nansi Davies, Rhuthun; N. Hughes, Cwmyglo; E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Gwen Griffith, Deiniolen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Megan Morris, Dinorwig; Eluned Jones a D. B. Williams, Trefor; Olwen Owen, Nan Owen, Moreen Lennon, Nan Owen ac A. Hughes, Llanberis; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Alvona Jones, Prestatyn; Elfed Evans, Llanllechid; Jennie Williams, Clynnog; H. O. Hughes, Pwllheli; Hywel Griffith, De Awstralia; Sioned Jones, Corwen; Gareth Oliver, Tregarth ac E. E. Jones, Rhoshirwaun.

Jennie Williams, Sea View, Tan y Graig, Clynnog, LL54 5PT ydi enillydd y mis. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Ebrill, gyrrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 16 Mai.



Sefydliad Prydeinig y Galon

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cangen Caernarfon a'r Cylch o'r Sefydliad yn ddiweddar gyda nifer dda o bersonau yn bresennol. Ailetholwyd y Swyddogion fel a ganlyn: Dr Tudor Ellis: Cadeirydd; Mari Edwards: Ysgrifennydd Cofnodion; Richard Parry: Trysorydd; Glenys Griffiths: Swyddog y Wasg.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am yr holl gefnogaeth dros y flwyddyn, ac yn enwedig i Mari Edwards am ei gwaith diflino. Cyhoeddodd y Trysorydd bod y swm o £14,318.14 wedi ei gasglu hyd at ddiwedd Mawrth eleni yn dilyn amrywiol weithgareddau ac hefyd rhoddion Er Cof.

Roedd Kathy Woodington, Trefnydd Gogledd Cymru, yn

bresennol, a chafwyd gair ganddi, gan longyfarch aelodau'r Gangen am godi cyfanswm anrhydeddus iawn.

Bu i nifer o aelodau gytuno i fod ar Is-bwyllgor i drefnu gweithgareddau am y flwyddyn i ddod, a'r cyntaf o'r rhain fydd Bore Coffi yn adeilad yr Institiwt, Caernarfon, ar fore Gwener, 6 Mai - tocynnau am 50c, ar gael gan aelodau'r Pwyllgor.

Bydd y casgliad o dŷ i dŷ yn cymryd lle rhwng 4 a 19 Mehefin. Penderfynwyd hefyd i rai o'r aelodau fod yn bresennol ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, a hynny i werthu tocynnau raffl a chodi ymwybyddiaeth o waith Sefydliad Prydeinig y Galon yn gyffredinol.

Cwis Diwrnod y Llyfr

Kimberley Jones, 9 oed, o Lanberis a ddaeth yn gyntaf yng Nghwis Diwrnod y Llyfr eleni a drefnwyd gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd. Roedd yn rhaid i Kimberley ateb 8 cwestiwn am lyfrau ac awduron trwy gymorth safleoedd gwe. Enillodd docynnau llyfr gwerth £50 iddi hi ei hun a thocynnau llyfr gwerth £50 i'w hysgol, sef Ysgol Dolbadarn.

Pob hwyl ar y darllen, Kimberley.

Nia Gruffydd, Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifanc Gwynedd, yn cyflwyno Kimberley gyda'i gwobr.



E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiâu Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonias.co.uk
Gwefan: www.arvonias.co.uk

CHWARAEON

ANELU AM Y STRADE



Y garfan flinedig a welir yn y llun oedd: Rhodri Evans, Arron Hughes, Daniel Bell, Mathew Edwards, Aaron Gwyn, Aled Jones, Gruffydd John, Osian Meirion, Sion Alun, Gerallt Jones, Gethin Griffiths ac Ild Jones. Pob lwc iddynt yng ngwlad yr hwntws.

Drwy ennill cystadleuaeth rygbi dan 11 oed Rhanbarth Eryri, mae criw adran yr Urdd, Bethel ar y ffordd i Lanelli. Dim ond tri sy'n chwarae rygbi, ond gyda sgiliau pêl-droed amlwg y gweddill a hyfforddi ysbrydoledig, Eifion 'Ruddock' Jones, caed llwyddiant draw ym Mhwllheli.

Er nerfusrwydd amlwg ar y cychwyn, roedd y sgôr yn erbyn Ysgol Cymerau yn 30-0 yn y gêm gyntaf.

Yna her tîm corfforol Llangybi. Roedd amddiffyn hogiau Bethel yn arwrol a digon o gyflymdra i dorri allan. Sgoriwyd tri chais: 15-0 i Fethel. Dwy gêm, dwy fuddugoliaeth, a heb ildio pwynt!

Yr un fu'r stori yn y drydedd gêm pan drechwyd Y Ffôr o 30-0.

Yna'r rownd gyn-derfynol, yn erbyn Ysgol y Gelli. Pum cais eto i'r hogiau mewn buddugoliaeth arall o 30-0. Yr uchafbwynt oedd cais unigol gwyd gan Aled Jones yn ffug basio ac ochr-gamu o'r hanner ffordd cyn plymio dros y llinell.

Gyda'u lle yn yr Wyl genedlaethol yn Llanelli wedi ci

selio, roedd yr hogiau yn benderfynol eu bod am deithio i'r de fel pencampwyr. Bechgyn cyhyrog Aberdaron a Rhiw oedd eu gwrthwynebwyr yn y ffeinal. Rhaid cofio nad anialdir rygbi yw Pen Llŷn, gan fod clwb Pwllheli wedi gosod sylfaeni hyfforddi cadarn ers sawl blwyddyn bellach.

Hogia Pen Llŷn sgoriodd gyntaf - llinell Bethel wedi ei chroesi am y tro cyntaf! Yna ysbryd a chymeriad y tîm 'gwneud' yn dod i'r amlwg. Taclo ffyrnig, a mynnu cadw'r bêl yn 'fyw', yn dod â'i lwyddiant gyda dau gais Aaron Gwyn yn selio'r fuddugoliaeth.

Y tlws i Fethel, wedi sgorio 23 cais mewn 5 gêm. Braf gweld fod dull y tîm cenedlaethol yn symbylu'r ieuencid. Dyma yw'r gwir brawf o lwyddiant - ei fod yn cael dylanwad, a hynny drwy fwynhad.

Rhanwyd y ceisiadau rhwng Aaron Gwyn (7), Gerallt Jones (2), Gruffydd John (3), Daniel Bell (4), Aled Jones (4), ac un yr un i Osian Meirion, Rhodri Evans ac Arron Hughes.

YDY RHANNU YN OPSIWN?

O wrando ar y gwleidyddion yn gaddo ar gyfer yr etholiad, mae'n ymddangos fod cost y gwasanaethau fel iechyd, addysg a gofynion cymdeithasol yn denu cryn ddadl.

Oes rhywun yn cwestiynu fod Rio Ferdinand werth £100,000 yr wythnos? Ydy Steven Gerrard yn werth £40 miliwn? Pam talu £1 y diwrnod i weithwyr tramor gynhyrchu crysau pêl-droed sy'n gwrthu am £50 i dalu'r cyflogau mawr i'r chwaraewyr?

Ym mhob agwedd o fydd y campau ymddengys fod arian yn brin. Mac Wrecsam yn gwsgian gyda dyled bitw o £4 miliwn - swm trwm i'w hysbysu. Chwaraewyr gweddol yn yr Uwch Gynghrair.

Diddorol oedd clywed am

gynlluniau rhannu meysydd. Y mwyaf 'dadleuol' oedd i'r GAA yn Eire ryddhau Croke Park a'i 80,000 o seddau ar gyfer gemau cartref timau rygbi a phêl-droed Iwerddon. Pery hyn am ddwy flynedd tra fydd maes Heol Landsdowne yn cael ei lusgo i'r oes fodern.

Yn Abertawe bydd tîm pêl-droed yr Elyrch a thîm rygbi y Gweilch yn rhannu stadiwm 20,000 o seddau o'r tymor nesaf ymlaen.

Ond beth am y sefyllfa ar y lefel leol? Mae Bangor ar fin symud o Ffordd Farrar i faes newydd. Eto, ni fydd y maes o safon digonol i chwarae gemau cystadlaethau Ewrop, a cawn y 'knockers' unwaith eto yn dweud

AR WIB I LWYDDO

'Dydy Bryn Taff rïoed wedi rasio moto beic na modur, ond mae ganddo gwmni rasio ei hun - fel **Bernie Ecclestone**.' Geiriau Ian Parri yn y *Daily Post*, ac wedi pum mlynedd o ddatblygiad cyson, mae Tîm Rasio Bryn Taff wedi hen ennill ei blwyf.

Erbyn hyn mae Bryn yn rheoli tri gyrrwr: Bryn Owen (mab Meilir Owen) o Benygroes, Mike Jones o Landyrnog, a Ken Bartley o Rhuthun. Yn gefn allweddol i'r pedwar mae mecanic dawnus iawn, Alf Griffiths. Bydd Bryn yn rasio ar gefn Honda RS 125, Mike ar FZR 400 Yamaha a Ken ar Honda RR 600.

Bu tymor 2004 yn un llwyddianus iawn i'r tîm. Roedd y tîm yn hyderus a'r gyrrwyr yn ffyddiog yn nawn Alfie i baratoi y beiciau ar gyfer cynifer o rاسus. Mentrwyd cystadlu mewn pedair pencampwriaeth - y 'Crewe a South Cheshire', y 'Wirral 100', y 'Cheshire a Nantwich' a'r 'Cheshire a Gogledd Cymru'. Cynhaliwyd y rاسus ar gyrsiau Tŷ Croes a Thonfannau.

Diddorol sylwi fod nifer o'r cyrsiau wedi eu lleoli ar hen wersylloedd y fyddin, neu feysydd awyr sydd wedi eu haddasu. Yn lleol, bwriedir gwario £5 miliwn ar addasu Tŷ Croes. Fel rhan o'r prosiect gobeithir sefydlu man hyfforddi mechanics o dan arweiniad coleg lleol. Mae'n siŵr y bydd gan nifer o ieuencid ddiddordeb yn y cwrs yma.

Cafwyd cryn lwyddiant yn y cyfresi rasio sy'n ffurfio pob pencampwriaeth. Ar wahân i ddwy rاس - nam technegol a damwain - cafwyd chwech cyntaf yn Nhonfannau, a phump cyntaf yn Nhŷ Croes. Galluogodd hyn Bryn Owen i gipio tair o'r pencampwriaethau ar ei Honda 125, ac ail safle yn y 'Wirral 100'.


Mae'r tîm wedi penderfynu mentro'n uwch yn 2006, gan gystadlu yn yr 20 rاس sy'n ffurfio yr 'M. R. O. British Championship', gyda rاسus ar brif draciau fel

Donnington ac Oulton Park. Yn naturiol bydd cryn gystadlu yn Nhŷ Croes a Thonfannau hefyd.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd noson i ddathlu yn y Gors Bach. Yr oedd yn gyfle hefyd i ddiolch i'r llu o noddwyr - llawer ohonynt yn lleol - sydd wedi bod yn gefn i'r tîm.

Camp gystadluol a chostus yw'r gamp hon. Dymuna Bryn Taff a'i dîm ddiolch o waelod calon am gefnogaeth ac ymddiriedaeth y canlynol:

Gwalia Garage, Welsh Historic Inns, Owen Glyn Owen (Cigydd), Volvo Llanfairpwll, Snowdon Aquatics, Caffi Cbyn, W. M. O'grady (Haulage), Arfon Bodycraft, Garej Beran, H. F. Owen (Haulage), Express Motors, Regency Signs, Alan Williams, Cen ap Tomos, Dic a Meirwen (Ceunant), Dennis a



Y tri llwyddiannus: Alf, Bryn a'r Honda 125.

Gwilym (Y Fali), John a Morfudd (Llanrug), Meilir ac Eleri (Penygroes), Neil Zammitt (Morfa Bychan), Cronfa Goffa Robin Jac, Ian Samper (Menai Haulage), William Davies (Gors Bach) a Ken Pugh, Groeslon.

AR OSOD

Sied fawr a hwylus gyda drws mawr 'roller'.

Am fwy o fanylion cysylltwch a **John Brynafon** ar

01286 675190

neu **07798 718188**

<http://www.bbc.co.uk/>

mai dim ond 800 oedd yn gwylio Bangor yn chwarae gartref yn Wrecsam.

O sylwi ar dorffeydd ar yr Oval yng nghadarnle pêl-droed - llai na 200 fel arfer - faint o Gofis sy'n wir boeni am eu clwb, A'i syniad dwl yw gwerthu ffordd Farrar a'r Oval, a defnyddio'r arian i adeiladu stadiwm bwrpasol y gallai'r ddau dîm ei rhannu? 'Never in Ewrop', mae'n siŵr fuaasai'r ateb, gan y llu sy'n barod i eistedd 'nôl a sbio ar y criwiau

bach sy'n barod i werthu panad a raffles i gynnal y timau.

A beth am y timau lleol? Llanrug a Llanberis yn rhannu cae, a'r cae arall yn cael ei ddefnyddio i chwarae gemau yr adran ieuencid. Neu Bethel a'r Felinheli yn rhannu maes, gan ei bod yn ymddangos y bydd y ddau glwb yn yr un gynghrair y tymor nesaf? A'i syniad dwl yw hyn, neu ydy 'traddodiad' yn gymaint o rwysr ag erioed? Beth am ymateb?

**CEFNOGWCH
EIN HYSBYSEBWYR
- GWASANAETHAU
DA AR GARREG
EICH DRWS**